**PRIFYSGOL BANGOR**

**CONTRACT MEDDIANNAETH MEWN LLETY MYFYRWYR (CYFNOD PENODOL)**

| | |
|---|---|
| **Enw'r myfyriwr** | Yn unol â'r hyn sydd yn yr adran "Contract Meddiannaeth" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor |
| **Rhif y myfyriwr** | Yn unol â'r hyn sydd yn yr adran "Contract Meddiannaeth" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor |
| **Llety** | Yn unol â'r hyn sydd yn yr adran "Eich Llety" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor |
| **Ystafell** | Mae ystafell wedi ei neilltuo dros dro i chi fel sydd wedi ei nodi yn yr adran "Eich Llety" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor. Mae'r landlord yn cadw'r hawl i neilltuo ystafell wahanol i chi hyd at y dyddiad y byddwch yn symud i mewn i'r llety. |
| **Dyddiad** | Y dyddiad y byddwch yn derbyn eich Contract Meddiannaeth yn electronig ac y byddwn yn cael e-bost gan dîm y Swyddfa Neuaddau yn cadarnhau eich bod wedi derbyn eich Contract Meddiannaeth |

## Part 1 GWYBODAETH EGLURHAOL

Dyma eich datganiad ysgrifenedig o'r Contract Meddiannaeth yr ydych wedi ei wneud o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("y ddeddf"). Mae'r contract rhyngoch chi, fel "deiliad y contract", a'r "landlord".

Rhaid i'ch landlord roi datganiad ysgrifenedig i chi, yn rhad ac am ddim, cyn pen 14 diwrnod ar ôl y "dyddiad meddiannu" (y diwrnod bydd gennych yr hawl i symud i mewn). Os na chawsoch gopi o'r datganiad ysgrifenedig hwn (gan gynnwys yn electronig os ydych wedi cytuno i dderbyn y datganiad ysgrifenedig ar ffurf electronig) cyn pen 14 diwrnod ar ôl y dyddiad meddiannu, am bob diwrnod y mae'n hwyr, gall y landlord fod yn rhwymedig i'ch digolledu, am swm sy'n cyfateb i ddiwrnod o rent, hyd at uchafswm o ddau fis o rent (oni bai bod y methiant yn fwriadol ac os felly gallwch wneud cais i'r llys i gynyddu'r swm hwn).

Rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gynnwys telerau eich contract a'r wybodaeth eglurhaol y mae'n ofynnol i'r landlord ei rhoi i chi. Mae'r telerau'n nodi eich hawliau a'ch cyfrifoldebau chi a rhai'r landlord (hynny yw, y pethau sy'n rhaid i chi a'ch landlord eu gwneud neu y caniateir i chi eu gwneud o dan y contract meddiannaeth). Dylech ddarllen y telerau i sicrhau eich bod yn deall yn llawn a'ch bod yn fodlon â hwy ac yna llofnodi lle nodir hynny i gadarnhau eich bod yn fodlon. Dylech gadw'r datganiad ysgrifenedig yn ddiogel oherwydd efallai y bydd gofyn i chi gyfeirio ato yn y dyfodol.

Mae telerau eich contract yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **"Prif Faterion"** | hynny yw:<br>• cyfeiriad y llety;<br>• y dyddiad meddiannu;<br>• cyfanswm y rhent (neu gydnabyddiaeth arall);<br>• y cyfnod rhentu (h.y. y cyfnod y mae'r rhent yn daladwy);<br>• y ffaith mai contract cyfnod penodol yw hwn; ac<br>• a oes cyfnodau pan nad oes gan ddeiliad y contract hawl i feddiannu'r llety fel cartref, a manylion y cyfnodau hynny. |
| **"Telerau Sylfaenol"** | darpariaethau yw'r rhain dan y ddeddf sy'n cael eu cynnwys yn awtomatig fel telerau contract meddiannaeth. Ni ellir newid rhai ohonynt a rhaid iddynt adlewyrchu geiriad y ddeddf[2]. Ond gellir hepgor neu newid rhai eraill ohonynt, ond dim ond os ydych chi a'r landlord yn cytuno i wneud hynny a'i fod o fudd i chi fel deiliad y contract. |
| **"Telerau Atodol"** | darpariaethau yw'r rhain, a nodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru, sydd hefyd yn cael eu cynnwys yn awtomatig fel telerau contract meddiannaeth. Fodd bynnag, ar yr amod eich bod chi a'r landlord yn cytuno, gellir gadael y rhain allan neu eu newid, naill ai er eich budd chi neu er budd y landlord. Ni ellir hepgor nac addasu telerau atodol mewn ffordd a fyddai'n gwneud y telerau hynny'n anghydnaws â thelerau sylfaenol. |

Os yw telerau sylfaenol neu atodol wedi eu hepgor neu wedi eu newid, rhaid nodi hyn yn y datganiad ysgrifenedig hwn. Mae hyn wedi ei nodi gan ddefnyddio prif lythrennau a/neu roi llinell drwy'r testun.

Gall telerau eich contract hefyd gynnwys:

| | |
|---|---|
| **"Telerau Ychwanegol"** | darpariaethau y cytunwyd arnynt gennych chi a'r landlord yw'r rhain, a all gynnwys unrhyw fater arall, ar yr amod nad ydynt yn gwrthdaro ag unrhyw faterion allweddol, telerau sylfaenol neu delerau atodol. Dyma'r telerau a gynhwysir yn **Atodiad 2**. |

Dan adran 62 Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015, nid yw telerau ychwanegol, neu unrhyw newid i delerau atodol, sy'n annheg (o fewn ystyr y ddeddf honno), yn eich rhwymo.

Gall datganiad ysgrifenedig anghywir neu anghyflawn olygu bod y landlord yn rhwymedig i'ch digolledu.

Pan gytunir ar unrhyw newidiadau i'r contract hwn ar ôl i'r contract hwn ddechrau, rhaid i'r landlord ddarparu copi ysgrifenedig o'r telerau neu'r telerau newydd neu ddatganiad ysgrifenedig newydd o'r contract hwn, cyn pen 14 diwrnod ar ôl cytuno ar y newid.

Mae eich contract yn gontract safonol cyfnod penodol, sy'n golygu ei fod yn para am gyfnod penodol o amser y cytunwyd arno rhyngoch chi a'r landlord yn y lle cyntaf. Mae hefyd yn golygu na allwch gael eich troi allan heb orchymyn llys, oni bai eich bod yn gadael y llety o'ch gwirfodd. Cyn i lys wneud gorchymyn o'r fath rhaid i'ch landlord ddangos bod y gweithdrefnau cywir wedi eu dilyn a bod o leiaf un o'r canlynol wedi ei fodloni:

(a) eich bod wedi torri un neu fwy o delerau'r contract (sy'n cynnwys unrhyw ôl-ddyledion rhent, cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall, a methu â gofalu'n briodol am y llety) a'i bod yn rhesymol eich troi allan;

(b) bod gennych ôl-ddyledion rhent difrifol (e.e. OS MAI CYFNOD Y RHENT YW BLWYDDYN AC OS YW O LEIAF 25% O'R RHENT YN FWY NA THRI MIS YN DDYLEDUS); neu

(c) bod rhaid i'ch landlord eich symud, a bod un o'r seiliau rheoli ystâd o dan adran 160 (seiliau rheoli ystâd) o'r ddeddf yn berthnasol, bod llety addas arall ar gael (neu bydd ar gael pan ddaw'r gorchymyn i rym), a'i fod yn rhesymol GOFYN ~~troi allan~~ EICH BOD YN GADAEL y LLETY.

Mae gennych hawliau pwysig o ran sut y gallwch ddefnyddio'r llety, er bod angen caniatâd eich landlord ar gyfer rhai ohonynt. OS BYDD Y CONTRACT HWN YN CANIATÁU I RYWUN I FYW GYDA CHI YN Y LLETY, efallai y bydd gan rywun sy'n byw gyda chi yn y llety hawl i'ch olynu yn y contract hwn os byddwch yn marw.

Ni ddylech ganiatáu i'r llety fod yn orlawn trwy ganiatáu i fwy o bobl fyw ynddo na'r uchafswm a ganiateir. Mae Rhan 10 Deddf Tai 1985 yn darparu'r sail ar gyfer pennu uchafswm nifer y bobl y caniateir iddynt fyw yn y llety. MAE HYN BOB AMSER YN AMODOL AR Y CYFYNGIADAU A OSODIR GAN Y CONTRACT HWN.

Gallwch gael eich dal yn gyfrifol am ymddygiad pawb sy'n byw yn y llety ac yn ymweld â'r llety. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall gynnwys sŵn gormodol, difenwi geiriol ac ymosodiad corfforol. Gall hefyd gynnwys cam-drin domestig (gan gynnwys cam-drin corfforol, emosiynol a rhywiol, seicolegol neu ariannol).

Os oes gennych broblem gyda'ch LLETY ~~cartref~~, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gellir datrys llawer o broblemau yn gyflym trwy eu codi pan fyddant yn digwydd am y tro cyntaf. Os na allwch ddod i gytundeb gyda'ch landlord, gallwch gysylltu ag asiantaeth gynghori (fel Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol neu Undeb y Myfyrwyr. Mae'n bosib y caiff anghydfodau ynglŷn â'ch contract eu datrys drwy'r llysoedd sirol yn y pen draw.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y contract hwn efallai y dewch o hyd i'r ateb ar wefan Llywodraeth Cymru ynghyd â gwybodaeth berthnasol, megis gwybodaeth am ddatrys anghydfodau.

Fel arall, gallech gysylltu ag asiantaeth gynghori (fel Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

## Part 2 PRIF FATERION

Oni bai ei fod yn dod i ben fel arall, mae'r contract safonol cyfnod penodol hwn yn rhoi'r hawl i chi feddiannu'r llety am y cyfnod a nodir isod.

**Mae'r prif faterion a'r wybodaeth am y blaendal (OS YN BERTHNASOL) a'r landlord wedi eu nodi isod.**

Mae'r contract hwn rhwng Prifysgol Bangor *(landlord)* a'r sawl a enwir yn yr adran "contract meddiannaeth" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor *(deiliad y contract)* ac mae'n ymwneud â'r llety a nodir yn yr adran "Eich Llety" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor *(y llety).* Mae'r landlord yn cadw'r hawl i neilltuo ystafell wahanol i chi hyd at y dyddiad y byddwch yn symud i mewn i'r llety.

Y rhent cychwynnol yw'r ffigwr a nodir dan "ffioedd neuaddau" yn yr adran "Eich Llety" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor Hwn yw'r rhent cychwynnol fesul blwyddyn academaidd (YN DALADWY YN UNOL Â THELERAU'R CONTRACT HWN).

Mae'r taliad cyntaf i'w wneud drwy'r dull ac ar yr amser a nodir yn y cynllun talu y gellir ei gyrchu drwy'r ddolen ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor.

Nid oes gennych hawl i feddiannu'r llety fel cartref yn ystod y cyfnod canlynol:

- Y TU ALLAN I'R CYFNOD PRESWYLIO A NODIR GAN Y LANDLORD YN EICH CYNNIG O LETY YN UNOL Â'R MANYLION AR BORTH PRIFYSGOL BANGOR;
- (OS YW'N BERTHNASOL) PAN GEWCH EICH GWAHARDD FEL MYFYRIWR PRIFYSGOL BANGOR DAN DDARPARIAETHAU EICH CONTRACT MYFYRIWR;
- (OS YW'N BERTHNASOL) PAN GEWCH EICH DIARDDEL FEL MYFYRIWR PRIFYSGOL BANGOR; NEU
- (OS YW'N BERTHNASOL) PAN NAD YDYCH WEDI COFRESTRU FEL MYFYRIWR LLAWN AMSER YM MHRIFYSGOL BANGOR; NEU

Gallwch gysylltu â'r landlord:

- trwy'r post: Y Swyddfa Neuaddau, Pentref Ffriddoedd, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2GP
- Ar y ffôn: 01248 382667
- trwy e-bost: neuaddau@bangor.ac.uk

NID ydych wedi talu blaendal.

Y dyddiad meddiannu (pan allwch symud i mewn i'r llety) yw'r dyddiad a ddangosir fel y "Dyddiad Cyrraedd" ar dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor a'r dyddiad gorffen yw'r "Dyddiad Gadael" fel y dangosir ar y dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor.

Mae'r contract meddiannaeth hwn yn gontract cyfreithiol rwymol rhyngoch chi a'r landlord. Drwy ddewis y blwch sy'n nodi "Rwyf wedi darllen a deall y telerau ac amodau uchod", nodi eich enw defnyddiwr a chlicio "Rwy'n derbyn", rydych yn cadarnhau eich bod yn derbyn telerau'r contract meddiannaeth, gan gynnwys y prif faterion a ddangosir ar borth Prifysgol Bangor a thelerau ac amodau eraill y contract meddiannaeth hwn, a'ch bwriad i ymrwymo i'r rhwymedigaethau hyn sy'n eich ymrwymo'n gyfreithiol.

TELERAU SYLFAENOL AC ATODOL

Mae telerau sylfaenol ac atodol y contract safonol cyfnod penodol hwn wedi eu nodi yn y rhan hon.

Allwedd:

| | |
|---|---|
| (A) | telerau ychwanegol |
| (F) | telerau sylfaenol na ellir eu gadael allan o'r contract hwn na'u newid[2] |
| (F+) | telerau sylfaenol y gellir eu gadael allan o'r contract hwn neu eu newid os byddai effaith hynny'n gwella sefyllfa deiliad y contract |
| S | telerau atodol |
| "chi" ac "eich" | yn ymwneud â deiliad y contract |
| Deddf | Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 |
| Contract | y contract hwn sy'n cynnwys y materion hynny a ddangosir ar y dudalen "Eich Cynnig" ar borth Prifysgol Bangor a thelerau ac amodau'r ddogfen hon<br><br>Dylech ddeall bod y contract hwn yn gosod rhwymedigaethau cyfreithiol arnoch chi ac ar y landlord. |
| Landlord | Prifysgol Bangor |
| "gan gynnwys" a "cynnwys" | enghreifftiol yw unrhyw restrau sy'n dilyn y geiriau hyn ac nid ydynt yn rhestrau llawn a therfynol |
| Testun a ddangosir mewn PRIFLYTHRENNAU | testun newydd sydd wedi ei ychwanegu at unrhyw rai o'r telerau sylfaenol neu atodol |
| Testun gyda llinell drwyddo | testun newydd sydd wedi ei hepgor o unrhyw rai o'r telerau sylfaenol neu atodol |

Nid yw troednodiadau yn rhan o delerau'r contract hwn, ond maent wedi eu cynnwys os ydynt yn ddefnyddiol.

**MYNEGAI**


Rhan 1 GWYBODAETH EGLURHAOL ....................2
Rhan 2 PRIF FATERION ....................4
0 TELERAU SYLFAENOL AC ATODOL ....................5
TELERAU7
1 RHENT A THALIADAU ERAILL ....................7
2 BLAENDAL ....................7
3 YMDDYGIAD GWAHARDDEDIG ....................8
4 RHEOLI’R LLETY ....................9
5 GOFALU AM Y LLETY — CYFRIFOLDEBAU DEILIAD Y CONTRACT ....................10
6 GOFALU AM Y LLETY—RHWYMEDIGAETHAU'R LANDLORD ....................11
7 GWNEUD NEWIDIADAU I'R LLETY NEU’R CYFLEUSTODAU ....................14
5 DIOGELWCH Y LLETY — CYFRIFOLDEBAU DEILIAD Y CONTRACT ....................15
9 CREU IS-DENANTIAETH NEU IS-DRWYDDED, TROSGLWYDDO’R CONTRACT NEU GYMRYD MORGAIS ....................15
10 DARPARIAETHAU YNGLŶN Â CHYD-DDEILIAID CONTRACT ....................16
11 TERFYNU’R CONTRACT — CYFFREDINOL ....................16
12 TERFYNU GAN DDEILIAD Y CONTRACT ....................18
13 TERFYNU GAN Y LANDLORD: HAWLIADAU MEDDIANT A HYSBYSIADAU MEDDIANT ....................19
14 TERFYNU GAN Y LANDLORD: SEILIAU DROS HAWLIO MEDDIANT ....................19
15 GORCHYMYN MEDDIANT GAN Y LLYS ....................21
16 AMRYWIAD ....................22
17 DATGANIADAU YSGRIFENEDIG A DARPARU GWYBODAETH ....................23
18 MATERION ERAILL ....................25


**Atodiadau**


1 Sail rheoli ystâd ....................27
2 Telerau ychwanegol (A) ....................32

**TELERAU**

1. **Rhent a thaliadau eraill**

1.1 **Derbyn rhent neu gydnabyddiaeth arall (S)**

O fewn ~~14~~ WYTH diwrnod AR HUGAIN o dderbyn cais gennych, mae'n rhaid i'r landlord roi derbynneb ysgrifenedig i chi am unrhyw rent neu gydnabyddiaeth arall[1] a dalwyd neu a ddarparwyd o dan y contract.

1.2 **Cyfnodau pan fo'r llety'n anaddas i bobl fyw ynddo (S)**

Nid oes gofyn i chi dalu'r rhent am unrhyw ddiwrnod neu ran o ddiwrnod pan nad yw'r llety'n addas i bobl fyw ynddo[4].

1.3 **Hawl i gael eich digolledu (F+)**

Os yw'r landlord yn atebol i'ch digolledu o dan adran 87 y ddeddf, gallwch ofyn bod y swm hwnnw yn mynd tuag at y rhent.

1.4 **TALU RHENT**

ONI BAI EICH BOD YN DERBYN UN O'R CYNLLUNIAU TALU A GYNIGIR GAN Y LANDLORD AR BORTH PRIFYSGOL BANGOR CYN Y DYDDIAD MEDDIANNU, MAE'R RHENT YN DALADWY YMLAEN LLAW AM GYFNOD CYFAN EICH PRESWYLIAD DAN Y CONTRACT MEDDIANNAETH HWN. OS YDYCH YN DERBYN UN O'R CYNLLUNIAU TALU HYN, RHAID I CHI DALU'R RHENT YN UNOL Â THELERAU'R CYNLLUN TALU PERTHNASOL. GALL Y LANDLORD (OND NID OES RHEIDRWYDD ARNO) DDARPARU STRWYTHURAU TALU AMGEN. GELLIR CAEL MWY O WYBODAETH TRWY GYSYLLTU Â'R SWYDDFA NEUADDAU GAN DDEFNYDDIO'R MANYLION UCHOD. RHODDIR UNRHYW STRWYTHURAU TALU ERAILL FEL CONSESIYNAU NAD YDYNT YN RHWYMO'R LANDLORD YN GYFREITHIOL AC NA FYDDANT YN AMRYWIAD O'R CONTRACT HWN NAC YN EFFEITHIO AR HAWLIAU'R LANDLORD DAN Y CONTRACT HWN.

2. **Blaendal**

2.1 **Math o ernes (F+)**

Ni chaiff y landlord fynnu bod ernes (sy'n cynnwys blaendal) yn cael ei rhoi ar unrhyw ffurf heblaw~~:~~

~~2.1.1~~ arian~~; neu~~

~~2.1.2 warant.~~

2.2 **Gofyniad i ddefnyddio cynllun blaendal (F)**

2.2.1 Os byddwch yn talu blaendal o dan y contract hwn (neu os bydd rhywun arall yn talu blaendal drosoch), rhaid trin y blaendal yn unol â chynllun blaendal awdurdodedig.[7]

2.2.2 Cyn diwedd y cyfnod o 30 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y telir y blaendal, rhaid i'r landlord wneud y canlynol:

2.2.2.1 cydymffurfio â gofynion cychwynnol y cynllun blaendal awdurdodedig; a

2.2.2.2 rhoi'r wybodaeth ofynnol i chi (ac unrhyw un sydd wedi talu'r blaendal drosoch).

2.2.3 Y wybodaeth ofynnol yw'r wybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau yn unol ag adran 45 y ddeddf, sy'n ymwneud â'r canlynol:

2.2.3.1 y cynllun blaendal awdurdodedig sy'n berthnasol;

2.2.3.2 cydymffurfiad y landlord â gofynion cychwynnol y cynllun; a

2.2.3.3 gweithredu Rhan 3, Pennod 4 y ddeddf *(Blaendaliadau a Chynlluniau Blaendal)*, gan gynnwys eich hawliau (a hawliau unrhyw un sydd wedi talu'r blaendal drosoch) mewn perthynas â'r blaendal.

3. **Ymddygiad gwaharddedig**

3.1 **Ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall8 (F)**

3.1.1 Ni chewch ymddwyn na bygwth ymddwyn mewn ffordd a allai achosi niwsans neu annifyrrwch i unrhyw un sydd â hawl (o ba bynnag ddisgrifiad):

3.1.1.1 i fyw yn y llety yn amodol ar y contract hwn; neu

3.1.1.2 i fyw mewn annedd neu lety arall yn ardal y llety yn amodol ar y contract hwn.

3.1.2 Ni chewch ymddwyn na bygwth ymddwyn mewn ffordd a allai achosi niwsans neu annifyrrwch i unrhyw un sy'n ymgymryd â gweithgaredd cyfreithlon

3.1.2.1 yn y llety yn amodol ar y contract hwn; neu

3.1.2.2 yn ardal y llety hwnnw.

3.1.3 Ni chewch ymddwyn na bygwth ymddwyn:

3.1.3.1 mewn ffordd a allai achosi niwsans neu annifyrrwch i'r canlynol:

(a) y landlord; neu

(b) unrhyw un (boed yn cael ei gyflogi gan y landlord ai peidio) sy'n gweithredu mewn cysylltiad â gweithredu swyddogaethau rheoli tai'r landlord; a

3.1.3.2 sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â swyddogaethau rheoli tai'r landlord neu sy'n effeithio arnynt.

3.1.4 Ni chewch ddefnyddio na bygwth defnyddio'r llety sy'n amodol ar y contract hwn, gan gynnwys unrhyw rannau cyffredin ac unrhyw ran arall o adeilad sy'n cynnwys y llety, at ddibenion troseddol.

3.1.5 Ni chewch, trwy unrhyw weithred neu anwaith:

3.1.5.1 ganiatáu, cymell neu annog unrhyw un sy'n byw yn y llety neu sy'n ymweld â'r llety i weithredu fel y crybwyllwyd ym **mharagraffau 3.1.1** i **3.1.3**; neu

3.1.5.2 ganiatáu, cymell neu annog unrhyw un i weithredu fel y crybwyllwyd ym **mharagraff 3.1.4**.

3.1.6 Rhaid i chi gydymffurfio â Chod Ymddygiad Preswyl Prifysgol Bangor, y gellir dod o hyd iddo yma: https://www.bangor.ac.uk/cy/llety/handfodol

4. **Rheoli'r llety**

4.1 **Defnydd o’r llety gan ddeiliad y contract (S)**

Ni ddylech gynnal neu ganiatáu unrhyw fasnach neu fusnes yn y llety A RHAID DEFNYDDIO'R LLETY FEL YSTAFELL WELY ASTUDIO YN UNIG ~~heb ganiatâd y landlord~~.

4.2 **Deiliaid a ganiateir (S)**

Ni CHEWCH ganiatáu i UNRHYW UN ARALL ~~nad ydynt yn letywyr[10] neu’n is-denantiaid[11]~~ fyw NEU AROS yn y llety, ond GALLWCH GANIATÁU I WESTEION AROS DROS NOS (OS YN “WESTEION”) YN Y LLETY AR YR AMODAU CANLYNOL:

4.2.1 BYDDWCH YN GYFRIFOL AM YMDDYGIAD UNRHYW WESTAI BOB AMSER. RHAID I CHI SICRHAU NAD YDYNT YN TORRI TELERAU'R CONTRACT HWN AC OS BYDDANT YN TORRI UNRHYW RAI O’R TELERAU, YSTYRIR MAI CHI FYDD WEDI TORRI’R TELERAU HYNNY;

4.2.2 RHAID I CHI GYDYMFFURFIO Â PHOLISI GWESTEION DROS NOS Y LANDLORD BOB AMSER. GALLWCH DDARLLEN Y POLISI YMA https://www.bangor.ac.uk/cy/llety/handfodol;

4.2.3 NI ALL UNRHYW WESTAI AROS YN Y LLETY AM FWY NA DWY NOSON MEWN UNRHYW GYFNOD O WYTHNOS;

4.2.4 GALL Y LANDLORD ATAL YR HAWL I GANIATÁU UNRHYW WESTAI NEU WESTEION (BOED YN UNIGOLYN A ENWIR NEU UNRHYW WESTAI O GWBL) GYDA RHYBUDD O WYTHNOS O LEIAF NEU AR UNWAITH MEWN ARGYFWNG, LLE BO'N RHESYMOL.

~~fel cartref~~.

4.3 **Hawl i breswylio heb ymyrraeth gan y landlord (F+)**

4.3.1 Ni chaiff y landlord, trwy unrhyw weithred neu anwaith, ymyrryd â'ch hawl i breswylio yn y llety.

4.3.2 Ni fydd y landlord yn ymyrryd â’ch hawl i breswylio yn y llety drwy arfer yn rhesymol hawliau’r landlord o dan y contract hwn.

4.3.3 Ni fydd y landlord yn ymyrryd â’ch hawl i breswylio yn y llety oherwydd methiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau atgyweirio (o fewn ystyr adran 100(2) y ddeddf[12]).

4.3.4 Mae’r landlord i’w drin fel pe bai wedi ymyrryd â’ch hawl os yw rhywun sydd:

4.3.4.1 yn gweithredu ar ran y landlord; neu

4.3.4.2 sydd â budd yn y llety, neu ran ohono, sy’n fwy na budd y landlord,

yn amharu ar eich hawl drwy unrhyw weithred neu anwaith cyfreithlon.

4.4 **Hawl landlord i fynd i mewn i’r llety — Atgyweirio (F+)**

4.4.1 Caiff y landlord fynd i mewn i’r llety ar unrhyw adeg resymol at ddiben:

4.4.1.1 archwilio ei gyflwr;

4.4.1.2 ATGYWEIRIO NEU OSOD GOSODIADAU A FFITIADAU NEU EITEMAU ERAILL A RESTRWYD YN Y RHESTR EIDDO; neu

4.4.1.3 gwneud gwaith neu atgyweiriadau sy’n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â’r rhwymedigaethau a nodir yn **nhelerau 6.1** a **6.2** y contract hwn.

4.4.2 Rhaid i'r landlord roi o leiaf 24 awr o rybudd i chi cyn gweithredu ar yr hawl honno. GALL Y LANDLORD FYND I MEWN I'R LLETY I WEITHREDU AR YR HAWLIAU A NODWYD YM **MHARAGRAFF 4.4.1** GYDA LLAI NA 24 AWR O RYBUDD OS BYDDWCH YN CANIATÁU IDDYNT WNEUD HYNNY.

4.4.3 Mae **Paragraff 4.4.4** o'r teler hwn yn berthnasol os:

4.4.3.1 mai dim ond rhan yn unig o adeilad yw'r llety; ac

4.4.3.2 er mwyn cydymffurfio â’r rhwymedigaethau a nodir yn **nhelerau 6.1** a 6.2, rhaid i’r landlord wneud gwaith neu atgyweiriadau mewn rhan arall o’r adeilad.

4.4.4 Nid yw’r landlord yn atebol am fethu â chydymffurfio â’r rhwymedigaethau o dan **delerau 6.1** a **6.2** os nad oes gan y landlord hawliau digonol dros y rhan arall honno o’r adeilad i allu gwneud y gwaith neu atgyweiriadau, ac nad oedd yn gallu cael hawliau o’r fath ar ôl gwneud ymdrech resymol i wneud hynny.

~~4.5 **Hawl landlord i fynd i mewn i’r llety – atgyweiriadau i osodiadau a ffitiadau (S)**~~

~~4.5.1 Os nad ydych wedi gwneud yr atgyweiriadau sy'n gyfrifoldeb i chi yn unol â thelerau 5.2.2 a 5.2.3, caiff y landlord fynd i mewn i’r llety ar unrhyw adeg resymol at ddiben atgyweirio’r gosodiadau a’r ffitiadau neu eitemau eraill a restrir yn y rhestr eiddo, neu osod rhai yn eu lle.~~

~~4.5.2 Ond rhaid i'r landlord roi o leiaf 24 awr o rybudd i chi cyn mynd i mewn i'r llety.~~

4.6 **Hawl landlord i fynd i mewn i’r llety — Achosion brys (S)**

4.6.1 Os bydd argyfwng fydd yn golygu bod rhaid i’r landlord fynd i mewn i’r llety heb rybudd, rhaid i chi roi mynediad ar unwaith i’r llety i’r landlord.

4.6.2 Os na fyddwch yn rhoi mynediad ar unwaith, gall y landlord fynd i mewn i'r llety heb eich caniatâd.

4.6.3 Os bydd y landlord yn mynd i mewn i'r llety yn unol â **pharagraff 4.6.2** y teler hwn, mae'n rhaid i'r landlord wneud ~~pob~~ ymdrech rhesymol i'ch hysbysu eu bod wedi dod i mewn i'r llety cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt fod i mewn.

4.6.4 At ddibenion **paragraff 4.6.1** y teler hwn, mae argyfwng yn cynnwys:

4.6.4.1 rhywbeth sydd angen gwaith brys i atal y llety neu'r anheddau NEU UNRHYW EIDDO yn y cyffiniau rhag cael eu difrodi'n ddifrifol, eu difrodi ymhellach neu eu dinistrio; a

4.6.4.2 rhywbeth, os na fydd y landlord yn delio â’r mater ar unwaith, a fyddai’n peryglu eich iechyd a’ch diogelwch chi, unrhyw un arall a ganiateir yn y llety neu bobl eraill yng nghyffiniau’r llety.

5. **Gofalu am y llety — cyfrifoldebau deiliad y contract**

5.1 **Dyletswydd i ofalu am y llety A'R RHANNAU CYFFREDIN (S)**

Nid ydych yn atebol am wisg a thraul i’r llety neu i osodiadau a ffitiadau yn y llety NEU’R RHANNAU CYFFREDIN ond rhaid:

5.1.1 gofalu'n briodol am y llety, y gosodiadau a'r ffitiadau yn y llety ac unrhyw eitemau a restrir yn y rhestr eiddo A'R RHANNAU CYFFREDIN TRWY BEIDIO AG ACHOSI UNRHYW DDIFROD I'R LLETY, GOSODIADAU A FFITIADAU AC EITEMAU NEU'R RHANNAU CYFFREDIN;

5.1.2 peidio â symud unrhyw osodiadau a ffitiadau neu unrhyw eitemau a restrir yn y rhestr eiddo o'r llety heb ganiatâd y landlord;

5.1.3 cadw'r llety A'R RHANNAU CYFFREDIN mewn cyflwr addurnol rhesymol TRWY BEIDIO Â SYMUD, GOSOD, DIFRODI NEU GEISIO TRWSIO GORFFENIAD ADDURNOL Y LLETY NEU'R RHANNAU CYFFREDIN;

5.1.4 peidio â chadw unrhyw beth yn y llety a fyddai'n risg iechyd a diogelwch i chi, unrhyw un arall a ganiateir yn y llety, unrhyw un sy'n ymweld â'r llety neu unrhyw un sy'n byw yng nghyffiniau'r llety;

5.1.5 PEIDIO Â GADAEL UNRHYW EITEMAU YN Y RHANNAU CYFFREDIN NAC ACHOSI RHWYSTR;

5.1.6 PEIDIO Â GWNEUD UNRHYW BETH A ALLAI ACHOSI DIFROD I UNRHYW OSODIADAU TRYDANOL NEU OFFER ERAILL YN Y LLETY NEU SY'N GWASANAETHU'R LLETY NEU'R RHANNAU CYFFREDIN; A

5.1.7 GWNEUD YMDRECH RHESYMOL I SICRHAU NAD YW'R RHANNAU CYFFREDIN AC UNRHYW OSODIADAU, FFITIADAU, PEIRIANNAU NEU OFFER YNDDYNT, GWNEUTHURIAD YR ADEILAD A'R TU ALLAN I'R ADEILAD YN CAEL EU NIWEIDIO GAN UNRHYW WEITHREDOEDD NEU ANWAITH.

5.2 **Dyletswydd i hysbysu'r landlord am ddiffyg neu waith atgyweirio angenrheidiol(S)**

5.2.1 Rhaid i chi hysbysu'r landlord cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol OND O FEWN 24 AWR BOB AMSER O DDOD I WYBOD am unrhyw nam, diffyg, difrod neu waith atgyweirio angenrheidiol y credwch yn rhesymol mai cyfrifoldeb y landlord ydyw NEU UNRHYW DDIFFYG YN NARPARIAETH Y GWASANAETHAU A NODWYD YM **MHARAGRAFF 1.1.1 RHAN 2** O'R TELERAU YCHWANEGOL.

~~5.2.2 Os byddwch yn credu'n rhesymol nad cyfrifoldeb y landlord yw unrhyw nam, diffyg, difrod neu waith atgyweirio angenrheidiol i'r gosodiadau a'r ffitiadau neu'r eitemau a restrir yn y rhestr eiddo, rhaid i chi, o fewn cyfnod rhesymol o amser, wneud atgyweiriadau i osodiadau a ffitiadau neu. eitemau eraill a restrir yn y rhestr eiddo, neu gael rhai newydd yn eu lle.~~

~~5.2.3 Mae'r amgylchiadau sy'n berthnasol i baragraff 5.2.2 y teler hwn yn cynnwys pan fydd y nam, y diffyg, y difrod neu'r gwaith atgyweirio angenrheidiol wedi digwydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf oherwydd gweithred neu anwaith sy'n gyfystyr â diffyg gofal[14] gennych chi, unrhyw un a ganiateir yn y llety neu unrhyw un sy'n ymweld â'r llety.~~

6. **Gofalu am y llety—rhwymedigaethau'r landlord**

6.1 **Rhwymedigaeth y landlord: addasrwydd i fyw ynddo (F+)**

6.1.1 Rhaid i'r landlord sicrhau bod y llety yn addas i rywun fyw ynddo:

6.1.1.1 ar y dyddiad y gellir symud i mewn i'r llety a nodwyd yn y contract hwn; ac

6.1.1.2 am gyfnod cyfan y contract hwn.

6.1.2 Mae’r cyfeiriad at y llety ym **mharagraff 6.1.1** y teler hwn yn cynnwys, os yw'r llety yn ffurfio rhan yn unig o adeilad, gwneuthuriad a thu allan yr adeilad a'r rhannau cyffredin.

6.2 **Rhwymedigaeth y landlord i gadw llety mewn cyflwr da (F+)**

6.2.1 Rhaid i'r landlord wneud y canlynol:

6.2.1.1 cadw adeiladwaith a thu allan y llety mewn cyflwr da (gan gynnwys draeniau, cwteri a phibellau allanol); a

6.2.1.2 chadw'r gosodiadau gwasanaeth yn y llety mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn.

6.2.2 os mai dim ond rhan yn unig o adeilad yw'r llety; rhaid i’r landlord wneud y canlynol:

6.2.2.1 cadw adeiladwaith a thu allan unrhyw ran arall o’r adeilad (gan gynnwys draeniau, cwteri a phibellau allanol) y mae gan y landlord ystâd neu fudd ynddo mewn cyflwr da; a

6.2.2.2 chadw gosodiad gwasanaeth sy'n gwasanaethu'r llety yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn, ac sydd naill ai’n:

(a) ffurfio rhan o unrhyw ran o’r adeilad y mae gan y landlord ystâd neu fudd ynddo; neu

(b) sy'n eiddo i'r landlord neu o dan reolaeth y landlord.

6.2.3 Rhaid i safon y gwaith atgyweirio sy'n ofynnol ym **mharagraffau 6.2.1** a 6.2.2 fod yn rhesymol o ystyried oedran a chymeriad y llety, a’r cyfnod pan fo’r llety’n debygol o fod ar gael i’w ddefnyddio fel cartref.

6.2.4 Yn y contract hwn, ystyr “gosodiad gwasanaeth” yw gosodiad cyflenwi dŵr, nwy neu drydan, gosodiad glanweithdra, gosodiad gwresogi ystafelloedd neu wresogi dŵr.

6.3 **Rhwymedigaethau landlord pellach mewn perthynas â thelerau 6.1 a 6.2 (F+)**

6.3.1 Rhaid i'r landlord unioni unrhyw ddifrod a achosir gan waith ac atgyweiriadau a wneir er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r landlord o dan **delerau 6.1** a **6.2.**

6.3.2 Ni chaiff y landlord osod unrhyw rwymedigaeth arnoch chi os byddwch yn gorfodi neu’n dibynnu ar rwymedigaethau’r landlord o dan d**elerau 6.1** a **6.2.**

6.4 **Cyfyngiadau ar rwymedigaethau’r landlord mewn perthynas â thelerau 6.1 a 6.2: Cyffredinol (F+)**

6.4.1 Nid yw **teler6.1** yn gosod unrhyw rwymedigaeth ar y landlord mewn perthynas â llety na all y landlord ei wneud yn addas i bobl fyw ynddo am gost resymol.

6.4.2 Nid yw rhwymedigaethau'r landlord o dan **baragraffau 6.1.1** a **6.2.1** yn gofyn bod y landlord:

6.4.2.1 yn cadw unrhyw beth mewn cyflwr da y mae gennych hawl i'w symud o'r llety; neu

6.4.2.2 yn ailadeiladu neu adfer y llety neu unrhyw ran ohono, yn achos dinistr neu ddifrod gan achos perthnasol.

6.4.3 Os yw'r llety'n ffurfio rhan o adeilad yn unig, nid yw rhwymedigaeth y landlord o dan **delerau** 6.1.1 a 6.2.1 yn gofyn bod y landlord yn ailadeiladu neu'n adfer unrhyw ran arall o'r adeilad y mae gan y landlord ystâd neu fudd ynddo, yn achos dinistr neu ddifrod gan achos perthnasol.

6.4.4 Achosion perthnasol at ddiben **paragraffau** 6.4.2.2 a 6.4.3 y teler hwn yw tân, storm, llifogydd neu ddamwain anochel arall.

6.4.5 **Nid yw teler** 6.2.2 yn gofyn bod y landlord yn gwneud gwaith neu atgyweiriadau oni bai bod y gwaith atgyweirio angenrheidiol neu'r methiant i'w gadw mewn cyflwr priodol yn effeithio ar eich mwynhad o'r canlynol:

6.4.5.1 y llety; neu'r

6.4.5.2 rhannau cyffredin y mae gennych hawl i'w defnyddio dan y contract hwn.

6.5 **Cyfyngiadau ar rwymedigaethau'r landlord mewn perthynas â thelerau 6.1 a 6.2: bai deiliad y contract (F+)**:

6.5.1 Nid yw **teler** 6.1.1 yn gosod unrhyw rwymedigaeth ar y landlord os yw'r llety'n anaddas i bobl fyw ynddo yn gyfan gwbl neu'n bennaf oherwydd gweithred neu anwaith (gan gynnwys gweithred neu anwaith sy'n gyfystyr â diffyg gofal) gennych chi neu rywun a ganiateir yn y llety.

6.5.2 Nid yw'r landlord dan rwymedigaeth i gyflawni **teler** 6.2.1 neu 6.2.2 i wneud gwaith neu atgyweiriadau os yw'r gwaith atgyweirio angenrheidiol neu fethiant mewn gosodiad gwasanaeth i'w briodoli'n gyfan gwbl neu'n bennaf i ddiffyg gofal gennych chi neu rywun a ganiateir yn y llety.

6.5.3 Mae "diffyg gofal" yn golygu methiant i ofalu'n briodol:

6.5.3.1 am y llety; neu

6.5.3.2 os yw'r llety'n ffurfio rhan o adeilad yn unig, am y rhannau cyffredin y mae gennych hawl i'w defnyddio dan y contract hwn.

6.6 **Cyfyngiadau ar rwymedigaethau'r landlord mewn perthynas â thelerau 6.1 a 6.2: rhybudd (F+)**

6.6.1 Ni fydd rhwymedigaethau'r landlord o dan **deler ý6.1.1.2** ac o dan **delerauý6.2.1** a **ý6.2.2** yn codi nes bod y landlord (neu yn achos cydlandlordiaid, unrhyw un ohonynt) yn cael gwybod bod gwaith neu atgyweiriadau yn angenrheidiol.

6.6.2 Mae'r landlord yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau o dan **deler** 6.1.1.2 ac o dan **delerau** 6.2.1 a 6.2.2 os yw'r landlord yn gwneud y gwaith neu'r atgyweiriadau angenrheidiol o fewn amser rhesymol ar ôl y diwrnod y caiff y landlord wybod eu bod yn angenrheidiol.

6.6.3 Os:

6.6.3.1 bydd y landlord (yr "hen landlord") yn trosglwyddo ei fudd fel landlord yn y llety i rywun arall (y "landlord newydd"); a

6.6.3.2 bydd yr hen landlord (neu os yw'r hen landlord yn cynnwys dau unigolyn neu fwy, unrhyw un ohonynt) yn ymwybodol cyn dyddiad y trosglwyddo bod rhaid gwneud gwaith neu atgyweiriadau er mwyn cydymffurfio â **thelerau ý6.1.1** neu **ý6.2.1** neu **ý6.2.2**,

rhaid ystyried bod y landlord newydd wedi dod i wybod am y gwaith neu'r atgyweiriadau angenrheidiol hynny ar ddyddiad y trosglwyddo, ond nid cyn hynny.

6.7 **Hawliau preswylydd a ganiateir (F+)**

6.7.1 Gall preswylydd a ganiateir[13] sy'n dioddef anaf personol, neu golled neu ddifrod i'w eiddo personol, o ganlyniad i fethiant y landlord i gydymffurfio â **theler 6.1** neu **6.2**, orfodi'r teler dan sylw yn ei rinwedd ei hun trwy ddwyn achos mewn perthynas â'r anaf, colled neu ddifrod.

6.7.2 Ond nid oes gan breswylydd a ganiateir sy'n lletywr[10] neu'n is-denant[11] hawl i wneud hynny oni bai bod ganddo hawl i fyw yn y llety neu os gwnaed contract is-feddiannaeth, yn unol â'r contract hwn.

DYLID EDRYCH AR DDARPARIAETHAU ERAILL Y CONTRACT HWN I ASESU A FYDD Y CONTRACT HWN YN CANIATÁU I BOBL ERAILL AROS YN Y LLETY.

7. **Gwneud newidiadau i'r llety neu'r cyfleustodau**

7.1 **Newidiadau i'r llety (S)**

7.2 Ni ddylech wneud unrhyw newidiadau i'r llety ~~heb ganiatâd y landlord~~.

7.3 Mae dibenion **paragraff 7.2** y teler hwn, "*newidiadau*", yn cynnwys:

7.3.1 unrhyw ychwanegiad neu newid i'r gosodiadau a'r ffitiadau yn y llety;

7.3.2 codi erial neu ddysgl lloeren;

7.3.3 codi, symud neu wneud newid strwythurol i siediau, garejys neu unrhyw strwythurau eraill yn y llety; a

7.3.4 gwneud gwaith addurno mewnol NEU allanol i'r llety.

7.4 **Newidiadau i'r ddarpariaeth gyfleustodau yn y llety (S)**

~~7.4.1 Gallwch newid unrhyw un o'r cyflenwyr canlynol yn y llety:~~

~~7.4.1.1 gwasanaethau trydan, nwy, neu danwydd neu ddŵr arall (gan gynnwys carthffosiaeth);~~

~~7.4.1.2 gwasanaethau ffôn, rhyngrwyd, teledu cebl neu deledu lloeren.~~

~~7.4.2 Rhaid ichi hysbysu'r landlord cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw newidiadau a wneir yn unol â pharagraff 7.4.1 y teler hwn.~~

7.4.3 Oni bai bod y landlord yn cydsynio, ni ddylech:

~~7.4.3.1 adael yr annedd, ar ddiwedd y contract, heb gyflenwr trydan, nwy neu danwydd arall (os yw'n berthnasol) neu wasanaethau dŵr (gan gynnwys carthffosiaeth), oni bai nad oedd y cyfleustodau hyn yn bresennol yn y llety ar y dyddiad meddiannu; neu~~

7.4.3.2 osod neu dynnu, neu drefnu gosod neu dynnu, unrhyw osodiadau gwasanaeth penodedig yn y llety.

7.4.4 At ddibenion **paragraff 7.4.3.2** y teler hwn, "*gosodiadau gwasanaeth penodedig*" yw gosodiad i gyflenwi dŵr, nwy neu drydan neu danwydd arall (os yw'n berthnasol) gosodiadau glanweithdra, gosodiadau gwresogi ystafelloedd neu wresogi dŵr NEU AT UNRHYW DDIBENION TELATHREBU NEU GYSYLLTU.

8. **Diogelwch y llety — cyfrifoldebau deiliad y contract**

8.1 **Diogelwch y llety — cyfnodau gwag (S)**

Os byddwch yn cael gwybod bod y llety wedi bod yn wag neu'n mynd i fod yn wag am saith niwrnod neu fwy yn olynol, rhaid i chi hysbysu'r landlord cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. NID YW HYN YN BERTHNASOL I GYFNODAU Y TU ALLAN I GYFNODAU Y CONTRACT MEDDIANNAETH.

8.2 **Diogelwch y llety — cloeon (S)**

8.3 Rhaid i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y llety'n ddiogel.

8.4 Ni chewch newid unrhyw glo ar ddrysau allanol neu fewnol y llety ~~ar yr amod nad yw unrhyw newidiadau o'r fath yn darparu llai o ddiogelwch na'r hyn a oedd ar gael yn flaenorol~~.

8.5 RHAID I CHI HYSBYSU'R LANDLORD CYN GYNTED Â PHOSIB OS BYDDWCH YN COLLI ALLWEDD NEU GERDYN ALLWEDD UNRHYW GLO I DDRYSAU ALLANOL NEU FEWNOL Y LLETY A RHAID I CHI DALU UNRHYW GOSTAU RHESYMOL SY'N CODI OHERWYDD I CHI GOLLI ALLWEDD NEU GERDYN ALLWEDD I'R LANDLORD, YN CYNNWYS COST TALU AM ALLWEDD NEU GERDYN ALLWEDD NEWYDD.

8.6 NI CHEWCH DORRI UNRHYW ALLWEDDI YCHWANEGOL NEU FFOBIAU ALLWEDD NA CHOPIO CARDIAU CERDYN MYNEDIAD I UNRHYW GLO AR DDRYSAU ALLANOL NEU FEWNOL Y LLETY NEU UNRHYW ADEILAD SY'N RHAN O'R LLETY I UNRHYW UN.

8.7 NI CHEWCH DDATGELU CODAU MYNEDIAD Y LLETY I UNRHYW UN.

8.8 NI CHEWCH RANNU NA RHOI UNRHYW ALLWEDDI NEU FFOBIAU ALLWEDD NA CHARDIAU CERDYN MYNEDIAD I UNRHYW GLO AR DDRYSAU ALLANOL NEU FEWNOL Y LLETY NEU UNRHYW ADEILAD SY'N RHAN O'R LLETY I UNRHYW UN.

8.9 MAE'R RHWYMEDIGAETHAU YN Y TELER HWN YN BERTHNASOL I UNRHYW GLOEON AR DDRYSAU ALLANOL NEU FEWNOL UNRHYW RANNAU CYFFREDIN O ADEILAD Y MAE'R LLETY YN RHAN OHONO.

8.10 ~~Os bydd unrhyw newid a wneir o dan baragraff 8.4 y teler hwn yn arwain at fod angen allwedd newydd i gael mynediad i'r llety neu unrhyw ran o'r llety, rhaid ichi hysbysu'r landlord cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am unrhyw newid a threfnu bod copi o'r allwedd newydd ar gael i'r landlord.~~.

9. **Creu is-denantiaeth neu is-drwydded, trosglwyddo'r contract neu gymryd morgais**

9.1 **Mathau o ddelio a ganiateir (F+)**

9.1.1 Ni chewch ddelio â'r contract hwn, y llety nac unrhyw ran o'r llety ac eithrio:

9.1.1.1 mewn ffordd a ganiateir gan y contract hwn; neu

9.1.1.2 yn unol â gorchymyn eiddo teuluol (gweler adran 251 y ddeddf)[17].

9.1.2 Ni chaiff cyd-ddeiliad contract ymdrin â'i hawliau a'i rwymedigaethau o dan y contract hwn (neu gyda'r contract hwn, y llety neu unrhyw ran o'r llety), ac eithrio:

9.1.2.1 mewn ffordd a ganiateir gan y contract hwn; neu

9.1.2.2 yn unol â gorchymyn eiddo teuluol.

9.1.3 Os gwnewch unrhyw beth yn groes i **baragraff 9.1.1** y teler hwn, neu os bydd cyd-ddeiliad contract yn gwneud unrhyw beth sy'n groes i **baragraff 9.1.2** y teler hwn:

9.1.3.1 ni fydd y trafodiad yn rhwymo’r landlord; a

9.1.3.2 byddwch chi neu gyd-ddeiliad y contract yn torri’r contract hwn (er nad yw’r trafodiad yn rhwymol ar y landlord).

9.1.4 Mae ”d*elio*” yn cynnwys:

9.1.4.1 creu tenantiaeth, neu greu trwydded sy'n rhoi'r hawl i feddiannu'r llety;

9.1.4.2 trosglwyddo; a

9.1.4.3 morgeisio neu godi tâl fel arall.

~~9.2 **Caniatáu lletywyr (S)**~~

~~Ni chewch ganiatáu i unrhyw un fyw yn y llety fel lletywr[18] heb ganiatâd y landlord.~~

10. **Darpariaethau ynglŷn â chyd-ddeiliaid contract**

10.1 **Ychwanegu cyd-ddeiliad contract (F+)**

10.1.1 Gallwch chi, fel deiliad y contract o dan y contract hwn, a rhywun arall, gyda chydsyniad y landlord[19], wneud yr unigolyn hwnnw yn gyd-ddeiliad contract o dan y contract.

10.1.2 Os gwneir rhywun yn gyd-ddeiliad contract o dan y teler hwn, bydd ganddo hawl i’r holl hawliau a bydd yn ddarostyngedig i holl rwymedigaethau deiliad contract o dan y contract hwn o’r diwrnod y daw’n gyd-ddeiliad y contract.

10.2 **Cyd-ddeiliad contract yn peidio â bod yn barti i gontract — goroesedd (F)**

10.2.1 Os bydd cyd-ddeiliad contract o dan y contract hwn yn marw, neu’n peidio â bod yn barti i’r contract hwn am ryw reswm arall, o’r adeg y bydd yn peidio â bod yn barti, y cyd-ddeiliaid contract sy’n weddill fydd:

10.2.1.1 gyda hawl lawn i'r holl hawliau o dan y contract hwn; ac

10.2.1.2 yn atebol i gyflawni’n llawn pob rhwymedigaeth sy’n ddyledus i’r landlord o dan y contract hwn.

10.2.2 Ni fydd gan gyd-ddeiliad y contract hawl i unrhyw hawl nac atebolrwydd i unrhyw rwymedigaeth mewn perthynas â’r cyfnod ar ôl iddo beidio â bod yn barti i’r contract.

10.2.3 Nid oes dim ym **mharagraff 10.2.1** neu **10.2.2** o’r teler hwn yn dileu unrhyw hawl neu’n ildio unrhyw atebolrwydd sydd gan y cyd-ddeiliad contract cyn iddo beidio â bod yn barti i’r contract.

10.2.4 Nid yw’r teler hwn yn berthnasol pan fo cyd-ddeiliad contract yn peidio â bod yn barti i’r contract hwn oherwydd bod ei hawliau a’i rwymedigaethau o dan y contract yn cael eu trosglwyddo yn unol â’r contract.

11. **Terfynu contract — cyffredinol**

11.1 **Terfyniad a ganiateir etc. (F)**

11.1.1 Gellir dod â’r contract hwn i ben yn unol â’r canlynol yn unig:

11.1.1.1 telerau sylfaenol y contract hwn sy’n ymgorffori darpariaethau sylfaenol a nodir yn Rhan 9 y ddeddf neu delerau eraill a gynhwysir

yn y contract hwn yn unol â Rhan 9 a nodir yn **nhelerau 11.1** i **11.4,** Error! Reference source not found. i **15.1** a **theler** Error! Reference so urce not found.[20]; neu

11.1.1.2 unrhyw ddeddfiad megis Deddf Senedd Cymru neu Ddeddf Seneddol neu reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

11.1.2 Nid oes dim yn y teler hwn yn effeithio ar y canlynol:

11.1.2.1 unrhyw hawl sydd gan y landlord neu ddeiliad y contract i ddiddymu'r contract; neu

11.1.2.2 weithrediad y gyfraith rwystredigaeth[21].

11.2 **Terfynu trwy gytundeb (F+)**

11.2.1 Os bydd y landlord a chithau'n cytuno i derfynu'r contract hwn, daw'r contract hwn i ben:

11.2.1.1 pan fyddwch yn ildio meddiant o'r llety yn unol â'r hyn y byddwch yn cytuno arno gyda'r landlord; neu

11.2.1.2 os na fyddwch yn ildio meddiant a bod contract meddiannaeth amgen yn cael ei wneud, yn union cyn dyddiad meddiannu'r contract meddiannaeth amgen.

11.2.2 Mae contract meddiannaeth yn gontract amgen os:

11.2.2.1 yw'n cael ei wneud mewn perthynas â'r un llety (neu'r un llety i raddau helaeth) â'r contract gwreiddiol; a

11.2.2.2 roeddech hefyd yn ddeiliad contract o dan y contract gwreiddiol.

11.3 **Tor-contract ymwrthodol gan landlord (F+)**

Os bydd landlord yn cyflawni tor-contract ymwrthodol[22] o gontract a'ch bod yn ildio meddiant o'r llety oherwydd y tor-contract hwnnw, daw'r contract hwn i ben pan fyddwch yn ildio meddiant o'r llety.

11.4 **Marwolaeth unig ddeiliad contract (F)**

11.4.1 Os ydych yn unig ddeiliad contract, daw'r contract hwn i ben:

11.4.1.1 fis ar ôl eich marwolaeth; neu

11.4.1.2 os yw'n gynharach, pan fydd y bobl awdurdodedig yn hysbysu eich landlord am eich marwolaeth.

11.4.2 Y bobl awdurdodedig yw:

11.4.2.1 eich cynrychiolwyr personol; neu

11.4.2.2 feddianwyr a ganiateir yn y llety sy'n 18 oed a throsodd (os o gwbl) yn gweithredu gyda'i gilydd.

11.4.3 Ni fydd y contract yn dod i ben os bydd un neu ragor o unigolion, o dan adran 74 (unigolyn sy'n gymwys i olynu) y ddeddf, yn gymwys i'ch olynu.

11.4.4 Ni fydd y contract yn dod i ben os, ar eich marwolaeth, bydd gorchymyn eiddo teuluol[23] ar waith sy'n gofyn bod y contract yn cael ei drosglwyddo i rywun arall.

11.4.5 Os na fydd y gorchymyn eiddo teuluol ar waith ar ôl eich marwolaeth ac nad oes unrhyw un sy’n gymwys i’ch olynu, daw’r contract i ben:

11.4.5.1 pan fydd gorchymyn yn peidio â bod ar waith; neu

11.4.5.2 os yn ddiweddarach, byddai'r contract yn dod i ben o dan **baragraff ý11.4.1** o'r teler hwn ar yr adeg honno.

11.5 **Rhwymedigaethau deiliaid contract ar ddiwedd y contract (S)**

11.5.1 Pan fyddwch yn gadael y llety ar ddiwedd y contract hwn, rhaid i chi:

11.5.1.1 symud yr holl eiddo o'r llety:

(a) sy’n perthyn i chi; neu

(b) sy’n perthyn i unrhyw un a ganiateir i aros yn y llety nad oes ganddo hawl i barhau i feddiannu'r llety;

11.5.1.2 dychwelyd unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r landlord i'r cyflwr yr oedd yr eiddo ynddo ar y dyddiad meddiannu; a

11.5.1.3 dychwelyd i’r landlord yr holl allweddi, FFOBIAU ALLWEDD A CHARDIAU MYNEDIAD sy’n galluogi mynediad i’r llety, a oedd yn eich meddiant yn ystod cyfnod y contract~~ neu unrhyw un a ganiateir i aros yn y llety nad oes ganddo hawl i barhau i feddiannu'r llety~~.

11.5.2 OS NA FYDDWCH YN SYMUD YR HOLL EIDDO Y CYFEIRIWYD ATO YN **NHELER 11.5.1.1**, GALL Y LANDLORD YMDRIN AG EIDDO O'R FATH YN UNOL Â'I BOLISI PERTHNASOL SYDD AR GAEL YN https://www.bangor.ac.uk/cy/llety/handfodol.

11.6 **Derbyn rhent neu gydnabyddiaeth arall (S)**

Rhaid i’r landlord ad-dalu i chi, o fewn amser rhesymol ar ddiwedd y contract hwn, unrhyw rent a dalwyd ymlaen llaw neu gydnabyddiaeth arall sy’n ymwneud ag unrhyw gyfnod sy’n dod ar ôl y dyddiad y daw’r contract hwn i ben. NI FYDD **TELER 11.6** YN BERTHNASOL PAN FYDD Y LANDLORD YN TERFYNU'R CONTRACT HWN OHERWYDD UNRHYW DOR-CONTRACT NEU DDIFFYG GENNYCH CHI YN EICH RHWYMEDIGAETHAU DAN Y CONTRACT HWN.

12. **Terfynu gan ddeiliad y contract**

12.1 **Terfynu’n gynnar gan ddeiliad y contract (F+)**

12.1.1 Gallwch derfynu’r contract hwn ar unrhyw adeg cyn y cynharaf o’r canlynol:

12.1.1.1 y landlord yn rhoi datganiad ysgrifenedig o’r contract hwn i chi o dan **deler17.1.1**; neu

12.1.1.2 y dyddiad meddiannu;

12.1.2 Er mwyn terfynu'r contract hwn o dan **baragraff** Error! Reference source not found. o’r teler hwn, rhaid i chi hysbysu’r landlord gan ddatgan eich bod yn terfynu’r contract hwn[24].

12.1.3 Wrth roi’r hysbysiad i’r landlord:

12.1.3.1 ni fydd gennych unrhyw atebolrwydd o dan y contract hwn mwyach; a

12.1.3.2 bydd gennych yr hawl i gael unrhyw flaendal, rhent neu gydnabyddiaeth arall a roddwyd i'r landlord yn unol â'r contract hwn yn ôl.

12.2 **Terfynu'r contract gyda chyd-ddeiliaid contract (F+)**

Os oes cyd-ddeiliaid contract o dan y contract hwn, ni ellir terfynu'r contract hwn drwy weithred un neu ragor o gyd-ddeiliaid y contract yn gweithredu heb gyd-ddeiliad arall y contract neu chyd-ddeiliaid eraill y contract.

13. **Terfynu gan y landlord: hawliadau meddiant a hysbysiadau meddiant**

13.1 **Hawlio meddiant (F)**

Dim ond o dan yr amgylchiadau a nodir ym Mhenodau 3 a 7, Rhan 9 y ddeddf y caiff y landlord wneud hawliad i'r llys i adennill meddiant o'r llety oddi wrthych ("hawlio meddiant"). Mae'r amgylchiadau hynny wedi eu nodi yn **nhelerau** 14.1 i 14.6 a Error! Reference source not found..

13.2 **Rhybuddion Meddiannu**

13.2.1 Mae'r teler hwn yn berthnasol mewn perthynas â hysbysiad adennill meddiant sy'n rhaid i'r landlord ei roi i ddeiliad contract dan unrhyw un o'r telerau a ganlyn cyn hawlio meddiant:

13.2.1.1 **teler** 14.2 (mewn perthynas â thor-contract gan ddeiliad contract);

13.2.1.2 **teler** 14.4 (mewn perthynas â seiliau rheoli ystâd); a

13.2.1.3 **theler14.6** (mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent difrifol)

13.2.2 Rhaid i'r rhybudd (yn ogystal â phennu ar ba sail y gwneir yr hawliad):

13.2.2.1 nodi bwriad y landlord i hawlio meddiant;

13.2.2.2 rhoi manylion y sail dros geisio meddiant; a

13.2.2.3 nodi o ba ddyddiad y gall y landlord hawlio'r meddiant

14. **Terfynu gan y landlord: seiliau dros hawlio meddiant**

14.1 **Tor-contract (F+)**

14.1.1 Os byddwch yn torri'r contract hwn, gall y landlord hawlio'r meddiant ar y sail honno.

14.1.2 Mae adran 209 o'r ddeddf yn darparu na chaiff y llys wneud gorchymyn hawlio meddiant ar y sail honno oni bai ei fod yn ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny (ac mae rhesymoldeb i'w benderfynu yn unol ag Atodlen 10 y ddeddf).

14.2 **Cyfyngiadau ar hawlio meddiant mewn perthynas â thor-contract (F+)**

14.2.1 Cyn hawlio meddiant ar y sail yn **nheler** 14.1, rhaid i'r landlord roi hysbysiad hawlio meddiant i chi sy'n pennu'r sail honno.

14.2.2 Caiff y landlord hawlio meddiant ar sail torri **teler** 3.1 (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall) ar neu ar ôl y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad hawlio meddiant i chi sy'n pennu bod y teler hwnnw wedi ei dorri.

14.2.3 Ni chaiff y landlord hawlio meddiant ar sail torri unrhyw un o delerau eraill y contract hwn cyn diwedd y cyfnod o fis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi hysbysiad hawlio meddiant i chi sy'n nodi bod y teler hwnnw wedi ei dorri.

14.2.4 Yn y naill achos neu'r llall, ni chaiff y landlord hawlio meddiant ar ôl diwedd y cyfnod o chwech mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad hawlio meddiant i chi.

14.3 **Sail rheoli ystâd (F+)**

14.3.1 Gall y landlord hawlio meddiant ar un neu fwy o'r seiliau rheoli ystâd.

14.3.2 Mae'r seiliau rheoli ystâd (a nodir yn Rhan 1, Atodlen 8 y ddeddf) wedi eu cynnwys yn yr atodiad i'r contract hwn.

14.3.3 Mae adran 210 o'r ddeddf yn darparu na chaiff y llys wneud gorchymyn adennill meddiant ar sail rheoli ystâd oni bai:

14.3.3.1 ei fod o'r farn ei bod yn rhesymol gwneud hynny (ac mae rhesymoldeb i'w benderfynu yn unol ag Atodlen 10 y ddeddf); ac

14.3.3.2 os yw'n fodlon bod llety arall addas (mae'r hyn sy'n addas i'w benderfynu yn unol ag Atodlen 11 y ddeddf) ar gael i chi (neu y bydd ar gael i chi pan ddaw'r gorchymyn i rym).

14.3.4 Os bydd y llys yn gwneud gorchymyn adennill meddiant ar sail rheoli ystâd (ac nid ar unrhyw sail arall), mae'n rhaid i'r landlord dalu swm i chi sy'n hafal i'r costau rhesymol y mae'n debygol y byddwch yn mynd iddynt wrth symud o'r llety.

14.3.5 Nid yw **paragraff 14.3.4** o'r teler hwn yn berthnasol os yw'r llys yn gwneud gorchymyn meddiannu ar sail A neu B (y seiliau ailddatblygu) yn y seiliau rheoli ystâd (ac nid ar unrhyw sail arall).

14.4 **Cyfyngiadau ar hawlio meddiant o dan y teler 14.3 (seiliau rheoli ystâd) (F+)**

14.4.1 Cyn hawlio meddiant ar sail rheoli ystâd, rhaid i'r landlord roi hysbysiad hawlio meddiant i chi sy'n pennu'r sail honno.

14.4.2 Ni chaiff y landlord hawlio meddiant:

14.4.2.1 cyn diwedd y cyfnod o fis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i chi; neu

14.4.2.2 ar ôl diwedd y cyfnod o chwech mis sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw.

14.4.3 Os cymeradwyir cynllun ailddatblygu o dan Ran 2, Atodlen 8 y ddeddf[25] yn ddarostyngedig i amodau, caiff y landlord roi hysbysiad adennill meddiant i chi sy'n pennu sail B ar gyfer rheoli ystâd cyn bodloni'r amodau.

14.4.4 Ni chaiff y landlord roi hysbysiad adennill meddiant i chi sy'n nodi sail G rheoli ystâd (llety nad oes ei angen ar yr olynydd):

14.4.4.1 cyn diwedd y cyfnod o chwech mis sy'n dechrau ar y diwrnod y daeth y landlord (neu yn achos cydlandlordiaid, unrhyw un ohonynt) yn ymwybodol o farwolaeth deiliad y contract; neu

14.4.4.2 ar ôl diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw.

14.4.5 Ni chaiff y landlord roi hysbysiad adennill meddiant i chi sy’n pennu sail H (cyd-ddeiliad contract sy’n gadael) rheoli ystâd ar ôl diwedd y cyfnod o chwech mis sy’n dechrau ar y diwrnod y daeth hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad y contract o dan y contract hwn i ben.

14.5 **Ôl-ddyledion rhent difrifol (F+)**

14.5.1 Os oes gennych ôl-ddyledion rhent difrifol, gall y landlord hawlio meddiant ar y sail honno.

14.5.2 Mae gennych ôl-ddyledion rhent difrifol:

14.5.2.1 os mai wythnos, pythefnos neu bedair wythnos yw'r cyfnod rhentu, os oes gennych o leiaf wyth wythnos o rent heb ei dalu;

14.5.2.2 os mai mis yw'r cyfnod rhentu, os oes gennych o leiaf ddau fis o rent heb ei dalu;

14.5.2.3 os mai chwarter yw’r cyfnod rhentu, os oes gennych o leiaf chwarter y rhent sydd fwy na thri mis mewn ôl-ddyledion; neu

14.5.2.4 os mai blwyddyn yw’r cyfnod rhentu, os oes gennych o leiaf 25% y rhent sydd fwy na thri mis mewn ôl-ddyledion; neu

14.5.3 Mae adran 216 o’r ddeddf yn darparu bod rhaid i’r llys (yn amodol ar unrhyw amddiffyniad sydd ar gael yn seiliedig ar eich hawliau Confensiwn (esbonnir hawliau’r Confensiwn yn fanylach yn Atodiad 1))[26] wneud gorchymyn meddiannu’r llety os yw’n fodlon eich bod:

14.5.3.1 mewn ôl-ddyled ddifrifol gyda'ch rhent ar y diwrnod y rhoddodd y landlord yr hysbysiad adennill meddiant i chi; a

14.5.3.2 mewn ôl-ddyled ddifrifol gyda'ch rhent ar y diwrnod y mae'r llys yn gwrando ar y cais i hawlio meddiant.

14.6 **Cyfyngiadau ar hawlio meddiant o dan y teler 14.5 (ôl-ddyledion rhent difrifol) (F+)**

14.6.1 Cyn hawlio meddiant ar sail **teler 14.5**, rhaid i’r landlord roi hysbysiad hawlio meddiant i chi sy’n pennu’r sail honno.

14.6.2 Ni chaiff y landlord hawlio meddiant:

14.6.2.1 cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar y diwrnod y mae’r landlord yn rhoi’r hysbysiad adennill meddiant i chi; neu

14.6.2.2 ar ôl diwedd y cyfnod o chwech mis sy'n dechrau ar y diwrnod hwnnw.

15. **Gorchymyn meddiant gan y Llys**

15.1 **Effaith gorchymyn meddiant (F+)**

15.1.1 Os bydd y llys yn gwneud gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o’r llety ar ddyddiad a nodir yn y gorchymyn, daw’r contract hwn i ben:

15.1.1.1 os byddwch yn ildio meddiant o’r llety ar y dyddiad hwnnw neu cyn y dyddiad hwnnw;

15.1.1.2 os byddwch yn ildio meddiant o’r llety ar ôl y dyddiad hwnnw ond cyn i’r gorchymyn adennill meddiant gael ei weithredu, ar y diwrnod y byddwch yn ildio meddiant o’r llety; neu

15.1.1.3 os na fyddwch yn ildio meddiant o'r llety cyn i'r gorchymyn adennill meddiant gael ei weithredu, pan fydd y gorchymyn adennill meddiant yn cael ei weithredu.

15.1.2 Mae **paragraff 15.1.3** o'r teler hwn yn berthnasol os:

15.1.2.1 yw'n amod yn y gorchymyn bod rhaid i'r landlord gynnig contract newydd mewn cysylltiad â'r un llety i un neu ragor o gyd-ddeiliaid contract (ond nid pob un ohonynt); a

15.1.2.2 yw cyd-ddeiliad y contract hwnnw (neu'r cyd-ddeiliaid contract hynny) yn parhau i feddiannu'r llety ar ddyddiad meddiannu'r contract newydd ac ar ôl y dyddiad hwnnw.

15.1.3 Daw'r contract hwn i ben ar unwaith cyn dyddiad meddiannu'r contract newydd.

16. **Amrywiad**

16.1 **Amrywiad (F - ac eithrio 16.1.1.1 sef F+)**

16.1.1 Ni cheir amrywio'r contract hwn ac eithrio:

16.1.1.1 drwy gytundeb rhyngoch chi a'r landlord; neu

16.1.1.2 o ganlyniad i ddeddfiad megis Deddf Senedd Cymru neu Ddeddf Seneddol neu reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

16.1.2 Rhaid i amrywiad i'r contract hwn (ac eithrio o ganlyniad i ddeddfiad) fod yn unol â **theler 16.2**.

16.2 **Cyfyngiad ar amrywiad (F)**

16.2.1 Mae telerau sylfaenol y contract hwn wedi eu nodi ym **mharagraff 16.2.2** o'r teler hwn, ni chaniateir ei amrywio (ac eithrio o ganlyniad i ddeddfiad megis Deddf Senedd Cymru neu Ddeddf Seneddol neu reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru).

16.2.2 Y telerau sylfaenol y mae **paragraff 16.2.1** o'r teler hwn yn berthnasol yw:

16.2.2.1 **teler 2.2** (gofyniad i ddefnyddio cynllun blaendal)

16.2.2.2 **teler 3.1** (ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad gwaharddedig arall)

16.2.2.3 **teler10.2** (cyd-ddeiliad contract yn peidio â bod yn barti i'r contract meddiannaeth mwyach);

16.2.2.4 **teler 11.1** (terfynu a ganiateir);

16.2.2.5 **teler 11.4** (marwolaeth unig ddeiliad contract);

16.2.2.6 **teler 13.1** (hawlio meddiant);

16.2.2.7 **telerau** Error! Reference source not found. a **16.1.2**;

16.2.2.8 y teler hwn; a

16.2.2.9 **theler** Error! Reference source not found. (datganiad ffug yn c ymell landlord i wneud contract - i'w drin fel tor-ymddygiad).

16.2.3 Nid yw amrywiad i unrhyw deler sylfaenol arall (ac eithrio o ganlyniad i ddeddfiad megis Deddf Senedd Cymru neu Ddeddf Seneddol neu reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru) yn cael unrhyw effaith.:

16.2.3.1 oni bai o ganlyniad i'r amrywiad:

(a) bod y ddarpariaeth sylfaenol[27] y mae'r teler yn ei ymgorffori wedi ei hymgorffori heb ei haddasu; neu

(b) ni ymgorfforir y ddarpariaeth sylfaenol y mae'r teler yn ei hymgorffori neu caiff ei hymgorffori gydag addasiad, effaith hyn yw bod eich sefyllfa'n cael ei gwella;

16.2.3.2 os yw'r amrywiad (waeth a yw ym **mharagraff 16.2.3.1** o’r teler hwn) yn gwneud y teler sylfaenol yn anghydnaws â theler sylfaenol a nodir ym **mharagraff 16.2.2** o'r teler hwn.

16.2.4 Ni chaiff amrywiad i un o delerau’r contract hwn unrhyw effaith pe byddai’n gwneud un o delerau’r contract hwn yn anghydnaws â theler sylfaenol (oni bai bod y teler sylfaenol hwnnw hefyd yn cael ei amrywio yn unol â’r teler hwn mewn ffordd a fyddai’n osgoi’r nghydnawsedd).

16.2.5 Nid yw **paragraff 16.2.4** o’r teler hwn yn berthnasol i amrywiad a wneir o ganlyniad i ddeddfiad.

## 17. Datganiadau ysgrifenedig a darparu gwybodaeth

### 17.1 Datganiadau ysgrifenedig (F+)

17.1.1 Rhaid i’r landlord roi datganiad ysgrifenedig o’r contract hwn i chi cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar y dyddiad meddiannu.

17.1.2 Os bydd deiliad y contract yn newid yn ystod y contract hwn, rhaid i’r landlord roi datganiad ysgrifenedig o’r contract hwn i ddeiliad newydd y contract cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar y:

17.1.2.1 diwrnod y mae deiliad y contract yn newid; neu

17.1.2.2 os yw’n ddiweddarach, y diwrnod y caiff y landlord (neu yn achos cyd-landlordiaid, unrhyw un ohonynt) wybod bod deiliad y contract wedi newid.

17.1.3 Ni chaiff y landlord godi ffi am ddarparu datganiad ysgrifenedig o dan **baragraff 17.1.1** neu **17.1.2** o'r teler hwn.

17.1.4 Gallwch ofyn am ddatganiad ysgrifenedig pellach o'r contract hwn ar unrhyw adeg.

17.1.5 Caiff y landlord godi ffi resymol am ddarparu datganiad ysgrifenedig pellach.

17.1.6 Rhaid i’r landlord roi datganiad ysgrifenedig pellach o’r contract hwn i chi cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy’n dechrau ar:

17.1.6.1 ddiwrnod y cais; neu

17.1.6.2 os yw’r landlord yn codi ffi, y diwrnod y byddwch yn talu’r ffi.

### 17.2 Datganiad ysgrifenedig o’r amrywiad (F+)

17.2.1 Os caiff y contract hwn ei amrywio, rhaid i’r landlord, cyn diwedd y cyfnod perthnasol, ddarparu:

17.2.1.1 datganiad ysgrifenedig o'r teler neu'r telerau a effeithir gan yr amrywiad; neu

17.2.1.2 ddatganiad ysgrifenedig o'r contract hwn a'r amrywiad.

17.2.2 Y cyfnod perthnasol yw'r cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod yr amrywir y contract hwn.

17.2.3 Ni chaiff y landlord godi ffi am ddarparu datganiad ysgrifenedig dan **baragraff 17.2.1** o'r teler hwn.

17.3 **Landlord yn darparu gwybodaeth am y landlord (F+)**

17.3.1 Rhaid i'r landlord, cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y dyddiad meddiannu, roi hysbysiad i chi o gyfeiriad y gallwch anfon dogfennau a fwriedir i'r landlord ato.

17.3.2 Os bydd y landlord yn newid, rhaid i'r landlord newydd, cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r landlord newydd yn landlord, eich hysbysu am y newid hwn a rhoi cyfeiriad y gallwch anfon dogfennau a fwriedir i'r landlord newydd ato.

17.3.3 Os bydd cyfeiriad y landlord yn newid, rhaid i'r landlord, cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod bydd y cyfeiriad yn newid, roi hysbysiad i chi o gyfeiriad y gallwch anfon dogfennau a fwriedir i'r landlord ato.

17.4 **Iawndal am dor-teler17.3 (F+)**

17.4.1 Os bydd y landlord yn methu â chydymffurfio â rhwymedigaeth o dan **deler 17.3**, gallai'r landlord orfod eich digolledu o dan adran 87 y ddeddf.

17.4.2 Mae'r digollediad yn daladwy mewn perthynas â'r dyddiad perthnasol a phob diwrnod ar ôl y dyddiad perthnasol tan::

17.4.2.1 y diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad dan sylw; neu

17.4.2.2 os yw'n gynharach, diwrnod olaf y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau ar y dyddiad perthnasol.

17.4.3 Mae llog yn daladwy ar y digollediad os bydd y landlord yn methu â rhoi'r hysbysiad i chi ar neu cyn y diwrnod y cyfeirir ato ym **mharagraff 17.4.2.2** o'r teler hwn.

17.4.4 Mae'r llog yn dechrau ar y diwrnod y cyfeirir ato ym **mharagraff 17.4.2.2** o'r teler hwn ar y gyfradd berthnasol o dan adran 6 Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 ar ddiwedd y diwrnod hwnnw.

17.4.5 Y dyddiad perthnasol yw diwrnod cyntaf y cyfnod yr oedd yn ofynnol i'r landlord roi'r hysbysiad.

17.5 **Rhestr eiddo (S)**

17.5.1 Rhaid i'r landlord ddarparu rhestr eiddo i chi mewn perthynas â'r llety heb fod yn hwyrach na'r dyddiad y mae'n rhaid i'r landlord ddarparu datganiad ysgrifenedig o'r contract hwn i chi yn unol â **theler 17.1**. DARPERIR Y RHESTR EIDDO AR FFURF HYSBYSIAD AR LEIN.

17.5.2 Rhaid i'r rhestr eiddo nodi cynnwys y llety, gan gynnwys yr holl osodiadau a ffitiadau a rhaid iddi ddisgrifio eu cyflwr ar y dyddiad meddiannu.

17.5.3 Os byddwch yn anghytuno â'r wybodaeth yn y rhestr eiddo, gallwch roi sylwadau i'r landlord.

17.5.4 Os na chaiff y landlord unrhyw sylwadau cyn pen ~~14~~ SAITH niwrnod ar ôl Y DYDDIAD MEDDIANNU, cymerir bod y rhestr eiddo’n gywir.

17.5.5 Os caiff y landlord sylwadau cyn pen ~~14~~ SAITH niwrnod, rhaid i’r landlord naill ai:

17.5.5.1 ddiwygio'r rhestr eiddo yn unol â'r sylwadau hynny ac anfon y rhestr eiddo ddiwygiedig atoch; neu

17.5.5.2 eich hysbysu nad yw’n cytuno â’r sylwadau, ac ail-anfon y rhestr eiddo wreiddiol atoch, gyda'r sylwadau ynghlwm wrth gopi o'r rhestr eiddo; neu

17.5.5.3 ddiwygio'r rhestr eiddo yn unol â rhai o'r sylwadau ac anfon y rhestr eiddo ddiwygiedig atoch, ynghyd â chofnod o'r sylwadau nad yw’n cytuno â hwy.

18. **Materion eraill**

18.1 **Datganiad ffug yn cymell landlord i wneud contract - i'w drin fel tor-ymddygiad (F)**

18.1.1 Os yw’r landlord yn cael ei gymell i wneud y contract hwn drwy gyfrwng datganiad ffug perthnasol:

18.1.1.1 rydych i gael eich trin fel petaech wedi torri'r contract hwn: ac

18.1.1.2 yn unol â hynny, caiff y landlord hawlio meddiant ar y sail yn **nheler 14.1** (tor-contract).

18.1.2 Mae datganiad ffug perthnasol yn un a wneir yn fwriadol neu’n ddi-hid:

18.1.2.1 gennych chi; neu

18.1.2.2 gan unrhyw un arall yn gweithredu ar eich anogaeth.

18.2 **Mathau o hysbysiadau etc. (F+)**

18.2.1 Rhaid i unrhyw hysbysiad, datganiad neu ddogfen arall y mae’n ofynnol neu yr awdurdodir ei rhoi neu ei gwneud gan y contract meddiannaeth hwn fod yn ysgrifenedig.

18.2.2 Mae adran 236[28] ac adran 237 y ddeddf yn gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â ffurf hysbysiadau a dogfennau eraill, ac ynglŷn â sut i anfon neu ddanfon dogfen y mae'n ofynnol neu yr awdurdodir ei rhoi i unigolyn gan neu oherwydd y ddeddf honno.

18.3 **Trosglwyddo hysbysiadau ac ati i'r landlord (S)**

Rhaid i chi wneud y canlynol:

(a) cadw unrhyw hysbysiadau, gorchmynion neu ddogfennau eraill a ddosberthir i’r llety wedi eu cyfeirio at y landlord yn benodol neu at y perchennog yn gyffredinol yn ddiogel; a

(b) cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, rhoi copïau gwreiddiol o unrhyw hysbysiadau, gorchmynion neu ddogfennau eraill o’r fath i’r landlord.

Gweler **teler 14.3**

# ATODIAD1

### Sail rheoli ystâd

### SAIL RHEOLI YSTÂD

### SAIL AILDDATBLYGU

1. Sail A (gwaith adeiladu

Mae’r landlord yn bwriadu, o fewn amser rhesymol ar ôl cael meddiant o’r llety—

1.1 dymchwel neu ailgodi'r adeilad neu ran o'r adeilad sy'n cynnwys y llety, neu

1.2 wneud gwaith ar yr adeilad hwnnw neu ar dir sy’n cael ei drin fel rhan o’r llety, ac na all yn rhesymol wneud hynny heb gael meddiant o’r llety.

2. Sail B (cynlluniau ailddatblygu)

2.1 Mae'r sail hon yn codi os yw'r llety'n bodloni'r amod cyntaf neu'r ail amod.

2.2 Yr amod cyntaf yw bod y llety mewn man sy’n destun cynllun ailddatblygu a gymeradwywyd yn unol â Rhan 2 o Atodlen 8 y ddeddf, a bod y landlord yn bwriadu gwaredu’r llety o fewn cyfnod rhesymol o amser ar ôl cael meddiant yn unol â'r cynllun.

2.3 Yr ail amod yw bod rhan o’r llety mewn man o’r fath a bod y landlord yn bwriadu gwaredu’r rhan honno yn unol â’r cynllun o fewn cyfnod rhesymol o amser ar ôl cael meddiant, ac at y diben hwnnw yn rhesymol angen meddiant o’r llety.

### SAIL LLETY ARBENNIG

3. **Sail C (elusennau)**

3.1 Elusen yw’r landlord a byddai deiliad y contract yn parhau i feddiannu’r llety yn gwrthdaro ag amcanion yr elusen.

3.2 Ond nid yw’r sail hon ar gael i’r landlord (“L”) oni bai, ar yr adeg y gwnaed y contract a bob amser ar ôl hynny, bod yr unigolyn sydd yn swydd y landlord (boed L neu unigolyn arall) wedi bod yn elusen.

3.3 Yn y paragraff hwn, mae gan ”*elusen*” yr un ystyr ag yn Neddf Elusennau 2011 (gweler adran 1 y ddeddf honno).

4. **Sail D (llety addas i bobl anabl)**

Mae gan y llety nodweddion sy’n sylweddol wahanol i rai anheddau arferol ac sydd wedi eu cynllunio i’w gwneud yn addas i’w meddiannu gan rywun ag anabledd corfforol sydd angen llety o’r math a ddarperir gan y llety ac:

4.1 nad oes unigolyn o'r fath yn byw yn y llety mwyach; a

4.2 bod ar y landlord angen i unigolyn o’r fath gael meddiant ar y llety (boed ar ei ben ei hun neu gydag aelodau o deulu’r unigolyn hwnnw).

~~5. **Sail E (cymdeithasau tai ac ymddiriedolaethau tai: pobl anodd eu lletya)**~~

~~5.1 Mae'r landlord yn gymdeithas dai neu'n ymddiriedolaeth tai sy'n sicrhau bod anheddau ar gael i'w meddiannu (boed ar eu pennau eu hunain neu gydag eraill) gan bobl sy'n anodd eu lletya yn unig, ac—~~

~~5.1.1 naill ai nad oes unigolyn o'r fath yn byw yn yr annedd mwyach neu fod awdurdod tai lleol wedi cynnig hawl i ddeiliad y contract feddiannu annedd arall o dan gontract diogel, a~~

~~5.1.2 bod ar y landlord angen i unigolyn o'r fath gael meddiant ar y llety (boed ar ei ben ei hun neu gydag aelodau o deulu'r unigolyn hwnnw).~~

~~5.2 Mae rhywun yn anodd ei letya os yw amgylchiadau'r unigolyn hwnnw (ac eithrio amgylchiadau ariannol) yn ei gwneud hi'n arbennig o anodd diwallu ei angen am lety.~~

6. **Sail F (grwpiau o anheddau i bobl ag anghenion arbennig)**

Mae'r llety'n ffurfio rhan o grŵp o anheddau y mae'n arfer gan y landlord sicrhau eu bod ar gael i'w meddiannu gan bobl ag anghenion arbennig a:

6.1 bod gwasanaeth cymdeithasol neu gyfleuster arbennig yn cael ei ddarparu yn agos at y grŵp o anheddau er mwyn cynorthwyo pobl sydd â'r anghenion arbennig hynny;

6.2 nad oes unigolyn â'r anghenion arbennig hynny yn byw yn y llety mwyach; a

6.3 mae angen y llety ar y landlord i'w feddiannu gan unigolyn sydd â'r anghenion arbennig hynny (boed ar ei ben ei hun neu gydag aelodau o'i deulu).

**SAIL DANFEDDIANNU**

7. **Sail G (olynwyr wrth gefn)**

Olynodd ddeiliad y contract i'r contract meddiannaeth dan adran 73 y ddeddf fel olynydd wrth gefn (gweler adrannau 76 a 77 y ddeddf), ac mae'r llety yn fwy nag sydd angen ar ddeiliad y contract yn rhesymol.

8. **Sail H (cyd-ddeiliaid contract)**

8.1 Mae'r sail hon yn codi os bodlonir yr amod cyntaf a'r ail amod.

8.2 Yr amod cyntaf yw bod hawliau a rhwymedigaethau cyd-ddeiliad contract o dan y contract wedi eu terfynu yn unol â'r canlynol:

8.2.1 adran 138 (tynnu'n ôl) y ddeddf; neu

8.2.2 adran 225, 227 neu 230 (eithrio) y ddeddf.

8.3 Yr ail amod yw:

8.3.1 bod y llety yn fwy na'r hyn sydd ei angen yn rhesymol ar ddeiliad y contract (neu ddeiliaid y contract) sy'n weddill; neu

8.3.2 os yw'r landlord yn landlord cymunedol, nid yw deiliad y contract sydd ar ôl (neu nid yw deiliaid y contract sydd ar ôl) yn bodloni meini prawf y landlord ar gyfer dyrannu llety.

## RHESYMAU ERAILL O RAN RHEOLI'R YSTÂD

9. **Sail I (rhesymau eraill o ran rheoli'r ystâd)**

9.1 Mae'r sail hon yn codi pan mae'n ddymunol i'r landlord am ryw reswm rheoli ystâd sylweddol arall gael meddiant o'r llety.

9.2 Gall rheswm rheoli ystâd, yn benodol, ymwneud â:

9.2.1 y llety cyfan neu ran ohono; neu

9.2.2 unrhyw le arall sy'n eiddo i'r landlord y mae'r llety'n gysylltiedig ag ef, boed oherwydd ei agosrwydd neu'r dibenion y caiff ei ddefnyddio ar eu cyfer, neu mewn unrhyw fodd arall.

### Nodiadau

1. Gall "*Ystyriaeth arall*" gynnwys er enghraifft, gwneud rhywbeth sy'n cyfateb i dalu rhent, megis darparu gwasanaeth i'r landlord neu wneud gwaith ar ei gyfer.

2. Dan adran 33 y ddeddf, gellir gwneud newidiadau golygyddol i eiriad term ar yr amod nad ydynt yn newid sylwedd y teler hwnnw mewn unrhyw ffordd.

3. Os byddwch yn parhau i feddiannu'r llety ar ôl diwedd y cyfnod, rhaid eich trin chi a'r landlord fel petaech wedi gwneud contract safonol cyfnodol newydd mewn perthynas â'r llety.

4. Wrth benderfynu a yw llety yn addas i bobl fyw ynddo, rhaid rhoi sylw i'r materion a'r amgylchiadau a nodir yn y rheoliadau a wneir o dan adran 94 y ddeddf sydd i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

5. Dim ond i gontractau y mae rhent yn daladwy oddi tanynt y mae'r teler hwn yn berthnasol.

6. Mae'r "*hawl i osod yn erbyn"* yn golygu os yw'n ofynnol i landlord ddigolledu deiliad contract am bethau megis methiant i ddarparu datganiad ysgrifenedig o'r contract, caiff deiliad y contract gadw rhent yn ôl hyd at werth y digollediad sy'n weddill. Mae adran 87 y ddeddf yn nodi'r holl amgylchiadau pan all landlord fod yn atebol i'ch digolledu a'r modd y dylid cyfrifo'r swm hwnnw.

7. Mae gwybodaeth am gynlluniau blaendal awdurdodedig a dolenni i'r "wybodaeth ofynnol" i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

8. Mae ymddygiad a allai dorri'r telerau hyn yn eang a gall gynnwys sŵn gormodol, cam-drin geiriol ac ymosodiad corfforol. Gall ymddygiad gwaharddedig hefyd gynnwys cam-drin domestig (gan gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol).

9. Mannau cyffredin llety yw a) unrhyw ran o adeilad sy'n llety a b) unrhyw adeilad arall (gan gynnwys unrhyw lety arall) y mae gan ddeiliad y contract hawl i'w ddefnyddio yn gyffredin ag eraill o dan delerau'r contract.

10. Mae adran 244(3) a (4) y ddeddf yn darparu bod rhywun yn byw mewn llety fel lletywr os yw'r denantiaeth neu'r drwydded y mae'n meddiannu'r llety oddi tani yn dod o fewn paragraff 6, Atodlen 2 y ddeddf (llety a rennir â'r landlord). Ond nid yw rhywun yn byw mewn llety fel lletywr os rhoddir hysbysiad iddo o dan baragraff 3, Atodlen 2 bod ei denantiaeth neu ei drwydded yn gontract meddiannaeth.

11. Mae adran 59(3) y ddeddf yn darparu mai "*is-ddeiliad*" yw deiliad y contract o dan y contract isfeddiannaeth.

12. Mae Adran 100(2) y ddeddf yn nodi "Y rhwymedigaethau atgyweirio yw—(a) rhwymedigaethau i atgyweirio unrhyw eiddo (neu i gadw eiddo mewn cyflwr da neu sicrhau ei fod ar gael mewn cyflwr da), neu i'w gynnal, ei adnewyddu, ei adeiladu neu ei amnewid,

a(b)rhwymedigaethau i gadw unrhyw annedd mewn cyflwr ffit i bobl fyw ynddi sut bynnag y mynegir hynny, ac maent yn cynnwys rhwymedigaethau'r landlord o dan adrannau 91 a 92 Adlewyrchir adrannau 91 a 92 y ddeddf yn nhelerau 6.1 a 6.2 y contract hwn.

13. Mae adran 244(5) y ddeddf yn darparu bod rhywun yn feddiannydd a ganiateir mewn llety sy'n amodol ar gontract meddiannaeth (a) os yw'n byw yn y llety fel lletywr neu isddeiliad i ddeiliad y contract, neu ( b) nad yw'n lletywr nac yn isddeiliad ond y caniateir iddo fyw yn y llety fel cartref gan ddeiliad y contract.

14. Mae adran 96(3) y ddeddf yn diffinio "*diffyg gofal*" fel methiant i gymryd gofal priodol (a) o'r llety, neu (b) os yw'r llety yn rhan yn unig o adeilad, o'r mannau cyffredin y mae gennych hawl i'w defnyddio o dan y contract meddiannaeth.

15. Wrth benderfynu a yw llety yn addas i bobl fyw ynddo, rhaid rhoi sylw i'r materion a'r amgylchiadau a nodir yn y rheoliadau a wneir o dan adran 94 y ddeddf sydd i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

16. Mae adran 59(2) y ddeddf yn darparu bod "*contract is-feddiannaeth*" yn gontract meddiannaeth (a) a wneir gyda landlord sy'n ddeiliad y contract o dan gontract meddiannaeth, a (b) sy'n ymwneud â'r cyfan neu ran o'r llety y mae'r contract hwnnw'n ymwneud ag ef.

17. Mae adran 251 y ddeddf yn nodi ystyr "*gorchymyn eiddo teuluol*" at ddibenion y teler hwn. Gall llysoedd wneud sawl math o orchymyn i ddatrys yr hyn sy'n digwydd i'r cartref teuluol ar ôl ysgariad, gwahanu ac ati.

18. At ddiben y teler hwn, mae adran 244(3) a (4) y ddeddf yn nodi bod rhywun yn byw mewn llety fel lletywr os yw'r denantiaeth neu'r drwydded y mae'n meddiannu'r llety oddi tani yn dod o fewn paragraff 6, Atodlen 2 y ddeddf (llety a rennir â'r landlord). Ond nid yw rhywun yn byw mewn llety fel lletywr os rhoddir hysbysiad iddo o dan baragraff 3, Atodlen 2 bod ei denantiaeth neu ei drwydded yn gontract meddiannaeth.

19. Wrth ystyried cais i rywun gael ei wneud yn gyd-ddeiliad contract, o dan adran 84 y ddeddf, 'ni chaiff landlord (a) wrthod caniatâd yn afresymol, neu (b) gydsynio yn amodol ar amodau afresymol'. Mae'r hyn sy'n rhesymol i'w benderfynu gan roi sylw i Atodlen 6 y ddeddf.

20. Telerau sylfaenol y contract hwn sy'n ymgorffori darpariaethau sylfaenol a nodir yn Rhan 9 y ddeddf neu delerau eraill a gynhwysir yn y contract hwn yn unol â Rhan 9 yn 11.1 i 11.4, **Error! Reference source not found.** i 15.1 a theler **Error! Reference source not fo und.**.

21. Byddai cyfraith rhwystredigaeth yn gweithredu mewn achos, er enghraifft, bod contract yn cael ei roi o'r neilltu oherwydd amgylchiadau sy'n ei gwneud yn amhosib cydymffurfio â'r contract.

22. Byddai tor-contract ymwrthodol yn dor-contract gan y landlord sy'n ddigon difrifol i gyfiawnhau ei derfynu ar unwaith gennych chi, er enghraifft oherwydd camliwio twyllodrus gan y landlord. Yn y pen draw, byddai'r llys yn penderfynu, os oes anghydfod, a yw tor-contract yn ymwrthodol.

23. Mae adran 251 y ddeddf yn nodi ystyr "*gorchymyn eiddo teuluol*". Gall llysoedd wneud sawl math o orchymyn i ddatrys yr hyn sy'n digwydd i'r cartref teuluol ar ôl ysgariad, gwahanu ac ati.

24. Gweler teler 18.2 ynglŷn â rhoi rhybudd.

25. Mae Rhan 2, Atodlen 8 y ddeddf yn darparu ar gyfer cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru i gynlluniau ailddatblygu at ddibenion Sail B o'r seiliau rheoli ystâd (a nodir yn yr atodiad i'r contract hwn).

26. ”*Hawliau Confensiwn*” yw hawliau a ddelir o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a ymgorfforwyd mewn cyfraith ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (tud. 42).

27. Mae adran 18 a 19 y ddeddf yn egluro bod “*darpariaethau sylfaenol*” yn ddarpariaethau o’r ddeddf sydd, o’u hymgorffori mewn contract meddiannaeth (gydag addasiadau neu hebddynt) yn cael eu hadnabod fel “telerau sylfaenol”.

28. Mae adran 236 y ddeddf yn darparu mai Gweinidogion Cymru sy’n rhagnodi ffurf y rhybudd neu ddogfen arall. Os yw ffurf y rhybudd neu’r ddogfen wedi ei rhagnodi, bydd y rhain ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

29. Mae’r atodiad hwn yn dyblygu’r darpariaethau yn Rhan 1, Atodlen 8 y ddeddf gyda’r diwygiadau hynny sy’n briodol mewn perthynas â chontract meddiannaeth safonol cyfnodol.

*Atodlen 3 > para. 1*

Atgynhyrchir deunydd Hawlfraint y Goron gyda chaniatâd HMSO ac Argraffydd y Frenhines ar gyfer yr Alban

# ATODIAD2

## Telerau Ychwanegol (A)

**Rhan 1: Eich rhwymedigaethau ychwanegol**

1. Peidiwch â gwneud y canlynol:

1.1.1 cymryd rhan neu fygwth cymryd rhan mewn ymddygiad:

1.1.1.1 sy'n gallu achosi niwsans neu annifyrrwch i rywun (boed yn gyflogedig gan y landlord ai peidio) sy'n gweithredu mewn cysylltiad â gweithredu swyddogaeth y landlord fel sefydliad wrth ddarparu gwasanaethau academaidd a diogelu lles ei fyfyrwyr, neu ymyrryd â'r unigolyn hwnnw; a

1.1.1.2 sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â neu sy'n effeithio ar weithredu swyddogaeth y landlord fel sefydliad o ran darparu gwasanaethau academaidd a diogelu lles ei fyfyrwyr.

1.1.2 gwneud unrhyw beth a allai achosi risg tân neu roi iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn arall neu unrhyw eiddo mewn perygl;

1.1.3 defnyddio neu fygwth defnyddio'r llety sy'n destun y contract hwn, gan gynnwys unrhyw ran arall o adeilad sy'n cynnwys y llety, at ddibenion sy'n groes i bolisïau disgyblu'r landlord (sydd i'w gweld yn https://www.bangor.ac.uk/accommodation/essential); a

1.1.4 dod ag unrhyw anifail i'r llety oni bai ei fod wedi ei hyfforddi i fod yn anifail gwasanaeth i gynorthwyo rhywun anabl

1.2 Rhaid i chi wneud y canlynol:

1.2.1 talu llog i'r landlord ar unrhyw rent nas talwyd cyn pen 14 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae'n ddyledus. Bydd llog yn daladwy ar gyfradd o 3% y flwyddyn uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr o bryd i'w gilydd am y cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad dyledus ac yn diweddu ar y dyddiad talu;

1.2.2 cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol

1.2.3 cydymffurfio â pholisïau, rheolau a rheoliadau Prifysgol Bangor a hysbysir i chi o bryd i'w gilydd, gan gynnwys (heb gyfyngiad) y rhai sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a diogelu. Gellir gweld y rhain yma ar hyn o bryd: https://www.bangor.ac.uk/cy/llety/handfodol;

1.2.4 sicrhau bod unrhyw offer neu ddyfeisiau trydanol (gan gynnwys, heb gyfyngiad, yr holl geblau estyniad) y byddwch yn dod â hwy i'r llety neu'r mannau cyffredin yn cael prawf PAT;

1.2.5 parhau i fod yn fyfyriwr cofrestredig llawn amser ym Mhrifysgol Bangor drwy gydol y contract hwn; a

1.2.6 thalu'r holl drethi cyngor a threthi lleol eraill yn uniongyrchol i'r awdurdod cymwys perthnasol ar gais neu, pan fo unrhyw dreth berthnasol wedi ei thalu gan y landlord, ad-dalu'r landlord o fewn 14 diwrnod i'r cais.

**Rhan 2: Ein rhwymedigaethau ychwanegol**

1. Rhaid i'r landlord wneud y canlynol:

1.1.1 darparu’r gwasanaethau canlynol:

1.1.1.1 trwsio’r adeilad;

1.1.1.2 yswirio’r adeilad;

1.1.1.3 darparu cyflenwad trydan i’r llety a'r mannau cyffredin

1.1.1.4 darparu gwres a golau yn y llety a’r mannau cyffredin;

1.1.1.5 darparu dŵr poeth ac oer yn y llety a’r mannau cyffredin;

1.1.1.6 cael gwared â sbwriel a roddwyd gennych yn y cynhwysyddion priodol;

1.1.1.7 glanhau'r mannau cyffredin yn rheolaidd (ac eithrio'r rhai yn ystafelloedd ymolchi’r tai tref ar Ffordd Tudno, Pentre'r Santes Fair, Lôn Pobty, Bangor, Gwynedd LL57 1DZ); a

1.1.1.8 darparu staff preswyl a staff diogelwch

Mae’n bosib y bydd rhaid i’r brifysgol atal, amrywio neu ychwanegu at y gwasanaethau er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru yn ystod unrhyw argyfwng iechyd cyhoeddus. Bydd y brifysgol yn trin myfyrwyr yn deg ac yn rhesymol os bydd rhaid gwneud newidiadau. Ni ystyrir bod newidiadau o'r fath yn newid yr hyn y cytunodd y brifysgol i'w ddarparu

1.1.2 cydymffurfio â’r Universities UK Code of Practice for the Management of Student Housing (ar gael yn https://www.universitiesuk.ac.uk/accommodationcodeofpractice)

**Rhan 3: Darpariaethau eraill**

1. Caiff y landlord fynd i mewn i’r llety ar unrhyw adeg resymol at ddiben:

1.1 darparu’r gwasanaethau a chydymffurfio â’r rhwymedigaethau ym **mharagraff 1, Rhan 2, Atodiad 2**; a

1.2 dangos y llety a'r mannau cyffredin i feddianwyr arfaethedig.

Rhaid i'r landlord roi o leiaf 24 awr o rybudd i chi cyn gweithredu ar yr hawliau hyn (heblaw mewn argyfwng).

2. Gallwch ddefnyddio'r mannau cyffredin hynny a ddynodwyd gan y landlord at eich defnydd eich hun o bryd i'w gilydd. Os nad yw’r landlord yn dynodi rhai, gallwch ddefnyddio’r mannau cyffredin sy’n angenrheidiol mewn cysylltiad â’ch defnydd o’r llety.

3. Ni fydd y landlord yn atebol o dan y contract hwn am unrhyw achos o dorri amodau **telerau 6.2** neu **6.3** sydd y tu allan i reolaeth resymol y landlord.

4. Ni fydd y landlord yn atebol am golled neu ddifrod i unrhyw un nac i unrhyw eiddo ac eithrio pan fydd wedi ei achosi gan esgeulustod y landlord neu ei fod wedi torri ei rwymedigaethau yn y contract hwn.

5. Mae gan y landlord yr hawl i symud o’r llety neu’r mannau cyffredin unrhyw beth sy’n peri rhwystr neu berygl tân neu iechyd a diogelwch ond bydd yn ei ddychwelyd i chi (oni bai ei fod yn ddarfodus neu wedi cael ei drosglwyddo i’r heddlu) adeg terfynu’r contract meddiannaeth.

6. Gall rhybuddion a roddir dan y contract meddiannaeth fod yn ysgrifenedig a chyfeiriad y landlord i'w cyflwyno yw’r Swyddfa Neuaddau, Pentref Ffriddoedd, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2GP.

7. Rydych yn cytuno i dderbyn y datganiad ysgrifenedig ac unrhyw hysbysiad arall o dan y contract hwn yn electronig os caniateir hynny gan delerau’r contract hwn a’r ddeddf.

8. Mae’r contract hwn rhyngoch chi a’r landlord ac ni fwriedir iddo roi unrhyw fudd i unrhyw un nad yw’n barti iddo.

9. Gallwch chi neu’r landlord gyfeirio unrhyw anghydfod ynglŷn â’r contract at yr uned cwynion.

10. Rydych yn cytuno y gall datganiad ffug at ddibenion **teler 18.1** fod yn ddatganiad am unrhyw euogfarnau troseddol blaenorol neu yn yr arfaeth, yn ogystal ag unrhyw ddatganiadau eraill.

11. Rydych chi a’r landlord yn cytuno, lle bo’r contract meddiannaeth hwn yn gofyn am ddarparu rhywbeth yn ysgrifenedig, bod y gofyniad hwnnw’n cael ei fodloni os darperir y ddogfen neu’r wybodaeth berthnasol yn electronig, boed hynny drwy e-bost neu drwy borth Prifysgol Bangor.